



Papur Bro ardal plwyfi: Cellan, Llanbedr Pont Steffan, Llanbedr Wledig, Llanfair Clydogau, Llangybi, Llanllwni, Llanwenog, Llanwnnen, Llanybydder, Llanycrwys ac Uwch Gaeo a Phencarreg

**Wedi ei dewis
i 'Only Kids
Aloud'**



Tudalen 2

**Cadwyn
Cyfrinachau
Seneddol**



Tudalen 14

**Eisteddfod
Capel y
Groes**



Tudalen 21

Merched yn rhedeg i gofio Sian



Y merched
gyda Gary ac
Elin Watkins
sef rhieni Sian
ynghyd ag Elin
Williams a
ddyluniodd y
crysau.

Ar fore Sul yn ddiweddar, roedd Lowri Gregson, Gwawr Jones, Megan Jones, Nia Milcoy ac Elinor Morgan yn sefyll yng nghysgod Canolfan y Mileniwm, ar fin dechrau ras 10K bae Caerdydd.

Mae eleni yn flwyddyn fawr wrth iddyn nhw ddathlu eu penblwyddi yn 30 oed ac roedd rhaid nodi'r garreg filltir bwysig hon mewn rhyw ffordd neu'i gilydd. Ond, law yn llaw a'r dathlu, roeddent hefyd yn cofio am ffrind annwyl arall a fyddai'n 30 oed eleni sef Sian Watkins, a wnaeth golli'i brwydr yn erbyn Cystic Fibrosis yn 18 oed. Wrth redeg 10K Caerdydd, roeddynt un ac oll yn dathlu ac yn cofio am fywyd Sian ar fis ei phen-blwydd yn 30 oed.

Ar ôl wythnosau o baratoi mewn glaw ac eira, tywynnodd yr haul drwy gydol y ras ar y rhedwyr a'r cefnogwyr ym mae Caerdydd ac roedd gwên fawr ar wyneb pob un o'r merched wrth iddynt groesi'r llinell derfyn yn eu tro.

Wrth gofrestru ar gyfer y ras, cytunodd pob un ohonynt godi swm o £50 yr un i elusen Cystic Fibrosis Trust. Mae'r cyfanswm bellach wedi cyrraedd dros £3,100. Dymuna'r merched ddolch o waelod calon i bawb sydd wedi cyfrannu a chefnogi a bwriedir cyflwyno'r cyfanswm terfynol i'r elusen ymhen rhai wythnosau.

Os carech gyfrannu tuag at yr achos arbennig hwn, mae cyfle i wneud o hyd a gallwch gyfrannu trwy law un o'r merched neu ar y wefan JustGiving <https://www.justgiving.com/fundraising/siani30>





Llongyfarchiadau mawr i Cerys Angharad Jones Ysgol Bro Pedr sydd wedi cael ei dewis yn aelod o Gôr "Only Kids Aloud." Arbennig Cerys a phob hwyl. Roedd Cerys wedi cipio'r wobr gyntaf am yr unawd telyn i ddisgyblion bl 6 ac iau yn Eisteddfod Sir yr Urdd. Yn ogystal, mae hi wedi dechrau ymarfer gyda Cherddorfa Cenedlaethol Plant Prydain wedi iddi gael ei dewis yn un o ddwy trwy Brydain gyfan – gwyh iawn a phob dymuniad da Cerys.



MEITHRINFA Y DYFODOL NURSERY



RY'N NI 'NÔL!




o DDYDD LLUN 4 MEHEFIN
Yr Hen Ysgol, Cellan,
Llanbedr Pont Steffan SA48 8JE

Meithrinfa dydd dwyieithog,
organic i blant o
fabandod i 12 oed gyda
chlwb gwyliau, clwb ar ôl ysgol
a chasgliadau o ysgolion lleol

DIWRNOD AGORED

Dydd Llun, 28 Mai 2018
10:00yb - 3:00yp

CROESO I BAWB weld ein meithrinfa ar ei
newydd wedd, gydag adloniant a lluniaeth

dwynwen.davies@hotmail.co.uk
(01570) 493601







www.facebook.com/clonc360



@Clonc360

Rhannwch eich newyddion lleol gyda Phapur Bro Clonc.



Aildrydarodd
[@Clonc360](#) neges
[@ysgolbydder](#)
Ebrill 25

Bois B14 wedi cael eu dewis i gynrychioli Sir Gar! Llongyfarchiadau bois!

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Aildrydarodd
[@Clonc360](#) neges
[@UMCB1](#)
Ebrill 23

Llongyfarchiadau i [@gethmorgan](#) ar gael ei ethol fel Swyddog Yr Iaith Gymraeg i Undeb Cenedlaethol Cymru

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Aildrydarodd
[@Clonc360](#) neges
[@MaredRandJones](#)
Ebrill 21

Diwrnod bendigedig yn Sioe Meirch Llambod

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Aildrydarodd
[@Clonc360](#) neges
[@CFfllCwmann](#)
Ebrill 21

Noson Social llawn joio a chwerthin neithiwr!! Diolch i [@cffi_llanllwni](#) am ddod draw ato ni

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Aildrydarodd
[@Clonc360](#) neges
[@cffiillanwenog](#)
Ebrill 9

Wel ni wedi stwffo heno! Diolch am y croeso Gareth ac am y wledd bendigedig!

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Aildrydarodd
[@Clonc360](#) neges
[@EnfysHatcher](#)
Mawrth 31

Pnawn o ddathlu'r pasg yng Nghapel Brynhafod heddi.

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu

Pwy yw pwy?

Beth yw beth?

Golygydd:

Mai Siwan Richards, 9 Cwrt Dulas, Llanbedd 421534
Mehefin Gwyneth Davies, Llys Enwyn, Llanybydder 480683
e-bost: golygydd@clonc.co.uk

Tîm Golygyddol Elaine Davies, Gwyneth Davies, Sian Jones, Marian Morgan, Delyth Morgans Phillips, Siwan Richards, Lois Williams.

Dylunydd y mis Dylan Lewis, Tŷ Cerrig, Cwmann 422349
Swyddog Dosbarthu Eifion Davies, Afallon, Drefach 480590
e-bost: bedwyr@btopenworld.com
Teipydd Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015

Gohebwyr Lleol:

Cellan Alwen Edwards, Awel Teifi 421001
Cwmann Gwyneth Morgan, Llety'r Dderwen 422922
Cwmsychbant Mary Davies, Maesglas, Drefach 480015
Llanwenog/Drefach Mary Davies neu Eifion Davies
Ffaldybrenin/Ffarmers Elfyn Davies, Troed y bryn, Ffarmers 01558 650507
Gorsgoch Eiddwen Hatcher, Tafarn Cefnhafod 434238
Llanbedd Janet Evans, Haulfryn 422856
Llanfair Dan ac Aerwen Griffiths, Pengarn 493407
Llangybi a Betws Mair Spate, Tŷ Capel Maesyffynnon 493325
Llanllwni Eirlys Owen, Cwmderi 481041
Llanwnnen Elin Thomas, 1 Teras Sycamor 480239
Llanybydder Menna Jones, Ceginau Lifestyle 480257
Pencarreg Lynda Thomas, Dolgwm Uchaf 422270

Bwrdd Busnes:

Cadeirydd Dylan Lewis, Tŷ Cerrig, Cwmann 422349
e-bost: cadeirydd@clonc.co.uk
Is-Gadeirydd Marian Morgan, Rhyd-y-felin, Drefach 481855
Ysgrifenyddes Mary Davies, Maesglas, Drefach 480015
Trysorydd Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015
e-bost: ysgrifennydd@clonc.co.uk

Ffotograffydd Tim Jones, Llainwen, Llambod 422644
Argraffwyr Gwasg Aeron, Aberaeron 01545 570573

- Mae Clonc yn aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion.
- Gwerthfawrogi gwaith pob gwirfoddolwr a sicrhodd ymddangosiad y rhifyn hwn o Clonc. Os hoffai eraill ymuno â'r tîm, cysylltwch ag aelod o'r bwrdd busnes.
- Y mae pawb sy'n ymwneud â Phapur Bro Clonc yn gwneud hynny'n wirfoddol ac yn ddi-dâl er budd y gymuned leol. Nhw fel unigolion sy'n derbyn pob risg a chyfrifoldeb (cyfreithiol ac fel arall) gan dderbyn mai ar y telerau hynny y maent yn cyfrannu at y papur a'i ddosbarthiad.
- Sicrhewch newyddion eich ardal chi yn Clonc. Peidiwch â meddwl y bydd rhywun arall yn gwneud. Mae'n rhy hwyr i feio neb os nad yw rhyweth yn ymddangos yn Clonc.
- Ewch â'ch newyddion at eich gohebydd lleol, neu ehostio golygydd@clonc.co.uk
- Gallwch adael newyddion a lluniau yn Siop J H Roberts a'i feibion, Y Stryd Fawr, Llanbedd.
- E-bostiwch eich eitemau ar gyfer y dyddiadur i ysgrifennydd@clonc.co.uk
- Defnyddiwch luniau o gamera cyffredin lliw, a du a gwyn. Ni fyddwn yn dychwelyd lluniau os na fyddwch wedi gwneud cais am hyn ar gefn y llun. Croesawn luniau digidol ar CD, cofbin USB, ac e-bost cadeirydd@clonc.co.uk
- Sicrhewch fod gennych ganiatad rhieni cyn tynnu lluniau plant i'w cynnwys yn Clonc. Rhoddir rhifynnau Clonc ar y wefan maes o law.
- Gofynnwn am dâl o £5.00 am roi "Diolch" yn y papur. Gellir tanysgrifio i Clonc am £17.50.
- Nid yw'r golygydd o reidrwdd yn cytuno ag unrhyw farn yn y papur hwn.

Siprys

Hawlio'r penawdau

Mae hi wedi bod yn fis hir, ac mae lot o bethe y gallwn i ddewis rantio amdany'n nhw y mis hwn! Mae'r penawdau newyddion (yn lleol ac yn genedlaethol) yn ddigon i gnoi cil drostyn nhw.

Beth am ddechrau gyda'r bwriad i ailenwi Pont Hafren yn Bont Tywysog Cymru. Molawd i deulu brenhinol gwlad arall. Hwrê a haleliwia! Dyna syniad penigamp i roi hyder ynom ni fel cenedl! A thra bo ni wrthi, beth am newid un o'n hadeiladau i fod yn 'balas' i deulu brenhinol Lloegr? Bydd hynny'n siŵr o ddenu'r twristiaid – oherwydd does 'da ni ddim byd i'w gynnig i bobol, nagoes!

Ac wedyn y ffoli a'r moli di-ben-draw am fabi brenhinol. Hwrê a haleliwia arall! Nawr, dwi ddim yn erbyn y babi bach a dwi ddim eisiau i bobol beidio llawenhau. Mae pob bywyd yn werthfawr, ac mae rhodd o fabi yn drysor, waeth i ba genedl neu i ba deulu bynnag y mae'n perthyn. Ond tra bod cannoedd o blant yn cael eu geni yn ddyddiol yn ein gwlad, a rhai teuluoedd yn dioddef caledi ac yn dibynnu ar fudd-daliadau ac ar fanciau bwyd, mae'n ffolineb fod rhai yn hala'u hamser a'u ffortiwn ar fabi na chaiff fyth fod mewn eisiau. Ar wahân i eisiau llonydd rhag llygad y byd o bosib. Fyddwn i byth bythoedd eisiau newid lle â'r teulu brenhinol. Mae'n well gen i fyw yn gynnil faterol yn fy myd bach fy hun na chael y pwyse a'r cyfrifoldeb a ddaw o fod yn perthyn i linach o'r fath.

Fe ddaw'r briodas frenhinol yn y man. Hwrê a haleliwia eto fyth! Fe gewch chi werth eich arian â'ch Jac yr Undeb eleni p'run bynnag!

Ond wrth i'r penawdau 'mawr' fel petai fod yn gocyn hitio rhwydd, dyma gofio bod synnwyr cyffredin wedi cario'r dydd mewn un achos lleol p'run bynnag. Roedd hi'n destun llawenydd fod Pwyllgor Rheoli Datblygu Cyngor Sir Ceredigion wedi gwrthod y cais dadleuol i godi 20 o unedau fforddiadwy ar safle hen Ysgol Ffynnonbedr. Diolch iddyn nhw am wrando ar lais a phryderon y bobol. Mae bod yn ddoeth yn ddawn brin, ond diolch am y rhai sy'n ei harfer.

Cloncen

Grantiau i Elusennau

Mae Fforwm Hanes Cymru, wedi lleoli yn Nhregaron a Cherddorion Ifanc Dyfed (Young Music Makers of Dyfed) ymhlith yr elusennau sydd wedi derbyn grantiau yn y drydedd rownd o grantiau bach Hanfod Cymru - yr elusen sy'n dosbarthu'r arian sy'n cael ei godi at achosion da gan Loteri Cymru. Mi fydd Fforwm Hanes Cymru yn defnyddio'r grant i dalu am wasanaethau cyfieithu yn eu cyfarfodydd er mwyn sicrhau eu bod yn agored i bawb, creu adnoddau marchnata a hyrwyddo'r fforwm ar faes yr Eisteddfod, ac i drefnu siaradwyr gwadd ar gyfer eu cynhadledd blynyddol. Bydd Cerddorion Ifanc Dyfed yn defnyddio'r grant i barhau a'u gwaith o gynnal dosbarthiadau cerddorol i bobl ifanc o dan 19 oed yn siroedd Caerfyrddin, Ceredigion a Phenfro.

Dywedodd Siôn Brynach, Prif Weithredwr Hanfod Cymru: "Roedd aelodau Bwrdd Hanfod Cymru wedi eu synnu gan safon a nifer y ceisiadau a ddaeth i law yn y drydedd rownd o geisiadau am grantiau bach, ac yn falch tu hwnt o fod wedi derbyn geisiadau o bob rhan o Gymru. Yn wir roedd nifer y geisiadau a ddaeth i law 20% yn uwch na'r rowndiau o geisiadau blaenorol. Gwnaeth Fforwm Hanes Cymru a Cherddorion Ifanc Dyfed yn wych felly i ddarbwyllo'r Bwrdd y dylid cefnogi eu geisiadau am arian tuag at ehangu gweithgarwch celfyddydol eu helusennau. Yn dilyn derbyn cymaint o geisiadau o safon uchel gan elusennau, roedd gan Fwrdd Hanfod Cymru waith anodd er mwyn penderfynu pa elusennau i'w hariannu â'r arian y dylid ei ddosbarthu. Pe buasai Hanfod Cymru wedi ariannu'r holl geisiadau a dderbyniwyd yn y rownd hon, byddai'r cyfanswm bron yn £770,000 ond £40,000 oedd ar gael i'r Bwrdd ei ddosbarthu."

Hanfod Cymru yw'r elusen sy'n dosbarthu'r arian sy'n cael ei godi at achosion da gan Loteri Cymru. Mae lleiafswm o 20% o'r elw o gyfanswm gwerthiant tocynnau Loteri Cymru yn cael ei gyfeirio at achosion da yng Nghymru trwy'r elusen. Gan bod Loteri Cymru bellach wedi rhoi'r gorau i weithredu bydd gwaith Hanfod Cymru hefyd yn dod i ben yn ystod haf 2019, gyda staff yr elusen yn cael eu diswyddo ar ddiwedd Mai eleni.

I ddod o hyd i wybodaeth pellach am waith Hanfod Cymru, i weld eu hanes hyd yn hyn, ac i weld sut mae grantiau Hanfod Cymru wedi gwneud gwahaniaeth i'r elusennau a ariannwyd, ewch i www.hanfodcymru.wales



Ariennir yn rhannol gan
Lywodraeth Cymru

Nid yw'r golygydd o reidrwdd yn cytuno ag unrhyw farn yn y papur hwn.

Antur

Rhaglen Antur Newydd

Mae S4C yn chwilio am gymeriadau rhwng 21 a thua 50 oed i gymryd rhan ar eu rhaglen newydd - DIANC!

Byddwch yn cael eich paru a'ch gollwng yn rhywle, yna bydd angen ffeindio'ch ffordd i 4 pwynt gwirio. Bydd gwahanol dasgau i gyrraedd bob pwynt gwirio gyda cliwiau ar sut i fynd o un pwynt i'r llall. Yn ystod y sialens olaf, bydd cyfle i ennill gwobr ariannol.

Nid oes rhaid bod yn heini iawn i gymryd rhan, dim ond eich bod yn gallu cerdded tua 3 milltir a gwneud un sialens fawr, er enghraifft rhwyfo neu ddringo. Bydd y rhaglen yn cael ei ffilmio dros dau ddiwrnod a champio dros nos yn ystod mis Mai/Mehefin.

Os oes gyda chi ddiddordeb, cysylltwch â Rhiannon am fwy o wybodaeth ar 01286 662 209 (estyniad 409) neu ar e-bost: swyddfa@antena.co.uk / rh.ff.wa@outlook.com.



MAI

- 4 Cyngerdd yng Nghapel Nonni, Llanllwni gyda 'Ar Wasgar', plant yr ysgol a Mr. Owain Davies. Tocynnau yn £5 a phlant cynradd am ddim. 4-7 Penwythnos Dartiau Llambled.
- 5 Eisteddfod Gadeiriol Capel Y Fadfa, Talgarreg. Manylion: Emyr 01545 590383 neu Enfys 01545 590295.
- 6 Gwasanaeth y Maer yng nghapel Noddfa am 10.30y.b.
- 7 Ras Dyffryn Cledlyn – i ddisgyblion cynradd, uwchradd ac oedolion. Yn cychwyn am 12.45 y.p. yn yr ysgol.
- 7 Gŵyl Calan Mai Pumsaint. Sioe, Carnifal a mwy. Manylion pellach wrth Mair ar 01558 650309.
- 8 Euros Jones yn siarad am John Thomas y ffotograffydd o'r 19eg ganrif yn Neuadd Llanfair Clydogau 7.30yh.
- 10 Diwrnod Prisio yn Amgueddfa Llambled o 11.00yb i 2.00yp.
- 10 Cyfrol o atgofion John Phillips, Maesyllan 'Agor Cloriau' yn cael ei lansio yng Nghapel Shiloh, Llambled am 7 o'r gloch.
- 11 Noson gyda'r Welsh Whisperer yng Nghlwb Rygbi Llambled gyda Chymdeithas Amaethyddol Llambled 7.30yh.
- 11 Pwyllgor R.A.B.I. Ceredigion yn cynnal Noson Rasus Ceffylau yng Ngwesty'r Hafod, Pontarfynach.
- 12 Rali C.Ff.I. Sir Gâr ym Maes y Sioe Nantyci, Caerfyrddin a Dawns ym Mrynaweon, Llanfynydd gyda'r hwyr.
- 13 Rihysal y Bedyddwyr ym Methel, Silian am 2.00y.p.
- 13 Cymanfa Ganu Annibynnwyr Cylch Llanbed yn Soar am 5.00yp.
- 15 Cyfarfod Blynnyddol Papur Bro CLONC yn y Crosshands, Llanybydder am 7.00yh.
- 17 Oedfa Cymorth Cristnogol yn San Tomos, Llanbed am 7.00 y.h.
- 19 Helfa Drysor CFFI Llanllwni.
- 20 Cymanfa Ganu Bedyddwyr cylch Caio a Llambled am 4.00y.p. yn Salem Caio.
- 20 Ras Fynydd Sarn Helen gan ddechrau o Glwb Rygbi Llambled am 10.30 ac 11.00y.b.
- 22 Hyfforddiant Diffibriliwr yng Nghapel Maesffynnon, Llangybi am 7.30yh.
- 25 Cinio Dathlu 75 mlynedd C.Ff.I. Llanllwni yng Ngwesty Llwyn Iorwg Caerfyrddin. Cysylltwch â Catrin Evans 07967295184 am docynnau.
- 26 Carnifal a Mabolgampau Cwmann ar gae'r pentref.
- 27 Taith Tractorau Drefach i ddechrau o gaeau Maesyrnnon am 10.30y.b. Manylion pellach gan Peter 434342 neu Jeff 481121.
- 27 It's a Knockout Llanybydder.
- 28 Diwrnod Agored Meithrinfa Dyfodol, Cellan o 10.00yb tan 3.00yp.
- 31 Gŵyl Gwrw Llanfair Clydogau 6.00yh-11.00yh.

MEHEFIN

- 1 Gŵyl Gwrw Llanfair Clydogau 5.00yh-12.00yb.
- 2 Gŵyl Gwrw Llanfair Clydogau 2.00yp-12.00yb a barbyciw am 6.30yh.
- 2 Rali C.Ff.I. Ceredigion yn Felinfach.
- 8 Sioe theatrig 'Y Freuddwyd' yn adrodd stori'r cenhadon ifanc fel rhan o ddathliadau Cymru – Madagasgar yn Celaeron, Neuadd-lwyd 7.30yh.
- 14, 15, 16 a 17 Recordio 4 rhaglen o'r gyfres deledu Noson Lawen yng Nghanolfan Hamdden, Llambled.
- 16 Gig gyda Bryn Fon a Beth Celyn yn Neuadd Fictoria, Llanbed am 8.00yh. Oedolion £10 Plant £5.
- 17 Cyngerdd yng Nghapel Maesffynnon, Llangybi yng nghwmni 'Parti Ffrindiau' am 7.30y.h. Pris Mynediad £5. Elw tuag at y Capel.
- 22 Pwyllgor R.A.B.I. Ceredigion yn cynnal Noson Gwis yng Nghlwb Rygbi Aberaeron.
- 30 Carnifal Llanybydder. Thema: Disney.

GORFFENNAF

- 27 BBQ yng Nghapel y Cwm, Cwmsychpant.
- 28 Ffair Fwyd Llambled.

AWST

- 4 Carnifal Llanbed, Thema: 'Beth ydw i moyn bod ar ôl tyfu'.
- 10 Sioe Amaethyddol Llanbedr Pont Steffan ar gaeau Pontfaen.
- 11 Sioe a Threialon Cŵn Defaid Cwmsychpant.
- 18 Sioe Gorsgoch.
- 19 Pwyllgor R.A.B.I. Ceredigion yn cynnal Ras Hwyaid yng Nglanwern, Felinfach.
- 25-27 Eisteddfod Rhys Thomas James, Pantyfedwen, Llanbed.

MEDI

- 22 Cyngerdd yng nghwmni Côr Bro Meirion yn Theatr Felinfach dan nawdd Eisteddfod Rhys Thomas James.

Gorsgoch

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Helen Maesygar ar enedigaeth Ilan Rhun. Trysor bach arall i Lyn ac Audrey.

Cwrtnewydd

Diolch

Dymuna Nanna, Garth ddiolch o galon i berthnasau a ffrindiau am eu caredigrwydd a'r dymuniadau gorau pan fu yn yr ysbyty yn ddiweddar a phob help ar ôl cyrraedd adref.

Pencarreg

Pen-blwydd

Dathlodd Emyr Jacob, Frondeg ei ben-blwydd yn 50 oed yn ystod mis Ebrill. Gobeithio dy fod wedi mwynhau'r dathlu.

Cellan

Cydymdeimlo

Daeth tristwch i ran pawb yn yr ardal pan glywyd am farwolaeth Robert Thomas, Llain-deg, Cellan yn ysbyty Glangwili ar ddiwedd mis Ebrill. Cydymdeimlwn gyda Rhodri, Llŷr a'u teuluoedd yn eu galar o golli tad a thad-cu hoffus iawn.

Cwmsychpant

Panto

Llongyfarchiadau mawr i aelodau C.Ff.I. Pontsian sydd yn byw yn y fro ar ennill cystadleuaeth y Panto ar lefel Cymru yn Aberhonddu yn ystod y mis. Cafodd y gystadleuaeth ei ohirio ym mis Mawrth gan fod tywydd gwael ac eira i fod ar y dyddiad hynny. Ail drefnwyd y gystadleuaeth gan ei gynnal ganol mis Ebrill mewn lleoliad gwahanol. Da iawn i bawb.

Gymanfa Ganu

Cynhaliwyd Gymanfa Ganu yr Undodiaid eleni yng Nghapel Alltlyblaca ar ddydd Sul, 23 Ebrill. Cyhoeddwyd yr emyn ar ran Capel y Cwm gan Mari Rees, Maesllwyd ac roedd wedi gwneud ei gwaith yn dda iawn.

Ieuan Jones
Adferwr Lluniau
Cwrtycadno



Gwasanaeth
troi
Vhs i Dvd

Rhoi bywyd newydd i hen lun

Ffôn: 01558 650153
e-bost: ieuan@glynhebog.co.uk
Y we: cwrtphotorestoring.com

T. Emyr Jones Adeiladwr



Araul, Cwmann

01570 423921

07867 945174

ANDREW JAMES

PLYMWR PROFIADOL



Gwasanaethu boeler olew
Gwres canolog
Ystafelloedd ymolchi a cheginau
Ffôn: 07811052757
Eboost: dandrewj@icloud.com

Gwersi TELYN a Gwersi PIANO preifat



Am wybodaeth bellach
cysylltwch â
Georgina Cornock-Evans
07967 648336

Gwasanaethu, Cynnal a Chadw
- Boileri a Ffynau Olew
- Pymplau Gwres o Ffynonhellau'r
ddae'r awyr
- Paneli Thermal Solar
- Silindrau heb awyrellau



01559 370997 / 07966 592183
aled.evans1@btinternet.com

Llanfair

Noson Cwis

Ar nos Wener, 6 Ebrill, cynhaliwyd noson cwis blynyddol y pentref gyda cymaint wedi dod, roedd y neuadd bron yn orlawn. Roedd deg tîm yn cystadlu yn yr ornest gyda o leiaf dau dîm yn cynnwys plant a phobl ifanc.

Trefnwyd y nos gan Anwen Bell, Llys Gwyn gyda cefnogaeth Emily Davies o Llambed. Dave Denny, Gelli Ddyfod oedd yn cadw trefn ar y marciau. Roedd pymtheg cwestiwn amrywiol a heriol ym mhob rownd gyda tipyn o grafu pen i ateb rhai ohonynt.

Hanner ffordd drwy'r noson cafwyd lluniaeth ysgafn wedi ei baratoi gan Eleanor, Nantymedd ac Eleri, Pentre. Tynnwyd y raffl yr un pryd, a hwn wedi ei drefnu gan Sally ac Alan Leech. Diolchodd Alan i bawb am eu rhoddion tuag at y raffl ac i bawb am gefnogi'r noson.

Ar ddiwedd y noson daeth y canlyniadau. Ymysg y plant, yr enillwyr oedd Sara, Ffion ac Elin. Y tîm oedolion cyntaf oedd y Tortoises yn cynnwys Arwyn Llanfair Fawr, Alan, Laura a Lesley gyda 106 o farciau. Yn ail oedd tîm y Foxtrotters yn cynnwys Alex a'i ffrindiau.

Dyma un o nosweithiau mwyaf hwylus y flwyddyn sy'n dangos mor glir pa mor bwysig yw cymuned.

Llongyfarchiadau.

Llongyfarchiadau cynnes iawn i Emyr Davies, Haulfre gynt, Heol Llanfair sydd newydd ddathlu ei ben-blwydd yn 80 oed. Bydd llawer ohonoch yn ei gofio naill ai yn yr ysgol neu yn y pentref. Mae Emyr wedi ymgartrefu yng Nghaerdydd ers blynyddoedd lawer.

Gwellhad

Mae sesiynau eithaf anghyffredin wedi cael eu cynnal yn y neuadd yn ystod mis Ebrill gan Judith Johnson, Tony Sherry ac Annie Zacienicz. Sesiynau oeddynt i wella pobol neu anifeiliaid trwy dechneg Emmett. Mae hwn yn ffordd effeithiol, di-ddolur ac yn therapi tyner - cyffwrdd sydd yn gwella trwy leddfu poen a chreu gwell symudiad yn y cymalau a'r cyhyrau a helpu i ymlacio. Mae'r sesiynau wedi cynnwys te a chacen a chyfle i gael gwybodaeth, cyngor a thriniaeth gyda'r tâl yn mynd tuag at gronfa diffibriliwr Neuadd Llanfair. Maent wedi codi £350 mor belled.

Os am ragor o wybodaeth, ewch i dudalen Facebook Llanfair Clydogau. Hefyd, mae gweithdai rhagarweiniol yn cael eu cynnal ar ddydd Sadwrn a Sul, 12 a 13 Mai, 9.30-1.30. Os am le ar y cwrs, cysylltwch â: judith@everybodysbetter.co.uk.



Llongyfarchiadau i Bryn Thomas o Glwb Golff Cilgwyn am chwarae i dîm Cymru dan 16 allan yn yr Iseldiroedd. Ar ôl chwarae tri diwrnod o golff yn erbyn pobl o'r Iseldiroedd, Iwerddon a'r Alban, roedd y tîm yn llwyddiannus. Daeth y cwpan nôl i Gymru am y tro cyntaf. Da iawn Bryn a tîm Cymru.

Corisma

Ar ôl seibiant bach, daeth merched y côr at ei gilydd ar nos Lun, 23 Ebrill. Pleser oedd croesawu Sue Reece o elusen Nysrys Macmillan atom i dderbyn sic o £2,500, sef elw'r Gymanfa yng Nghapel Shiloh ar ddiwedd mis Mawrth, er cof am Dilys Davies. Diddorol oedd clywed ychydig am gefndir yr elusen ac wrth gwrs, y gwaith arbennig a wneir ganddynt. Braf oedd gallu gwneud cyfraniad at yr elusen gwerthfawr hwn. Diolch o galon i bawb am eu haelioni ac hefyd am eu geiriau caredig wedi'r Gymanfa. Gan fod Sue wedi methu bod efo ni'r noson honno, roedd hi'n awyddus i glywed y côr yn canu, a ninnau yr un mor awyddus i wneud hynny. Carys oedd yn ein harwain wrth gwrs, ond roedd hi'n gwneud hynny am y tro olaf, gan ei bod wedi penderfynu rhoi'r gorau i'w rôl fel arweinydd y côr. Diolchodd Lena iddi, ar ran pawb, am ei hymroddiad a'i brwdfrydedd ers sefydlu'r côr dros ddegawd yn ôl, ac am yr holl brofiadau a hwyl a gawsom dan ei harweiniad. Yn ffodus i ni, fe fydd Carys yn parhau'n aelod o Corisma ac yn ymuno â'r sopranos, ac fe fydd Rhian Twynog yn cymryd yr awenau fel arweinyddes. Pob hwyl iddi wrth geisio cadw trefn arnom! Rydym yn hyderus y byddi di'n wych Rhian!

18 oed

Dathlodd Tomos Jones, Awel-y-Grug ei ben-blwydd yn ddeunaw oed yn ystod y mis.

Cydymdeimlo

Estynnwn ein cydymdeimlad a Helena Gregson, Gareth Jones ac Emyr Jones a'u teuluoedd ar farwolaeth eu brawd yng nghyfraith Mr Denzil Williams, Barley Mow,

Cwmann



Aelodau Côr Corisma yn cyflwyno sic o £2,500 i Sue Reece ar ran elusen Nysrys Macmillan



Cerddwyr o Blwyf Pencarreg yn cerdded Taith Dros Fywyd ar fore Sul 22ain Ebrill yng Nghwmman er mwyn codi arian tuag at elusen Kidney Wales.

Llambed [Llansawel gynt] a'r holl gysylltiadau teuluol eraill.

Diolch

Dymuna Carys a theulu y diweddar Arthur Jenkins, 26 Heol Hathren, Cwmman ddiolch i bawb am eu cydymdeimlad, cardiaau a'r blodau a dderbyniwyd yn ystod eu galar. Diolch yn fawr hefyd i'r doctoriaid, nysrys a'r gofalfwyr a fuodd yn dda dros ben iddo.

Clwb 125 Neuadd Sant Iago

Mis Ebrill: Myra Jones, 14, Bryn-Yr-Eglwys, Llambed, 32; Jasmine Davies, Glenview, Pencarreg, 74; Jim Brown, Ty-Helyg, Cwmman, 37; Muriel Davies, 2, Nant-Y-Glyn, Cwmman, 93; Aled Williams, Sarnhelen, Cwmman, 26; Lena Williams, 39, Heol-Hathren, Cwmman, 22; Ann Davies, Brynteify, Cwmman, 56.

Clwb 225 Pwyllgor Pentref

Ebrill: £20 97 Dyfed a Meinir Evans, d/o Ffosyffin, Cellan; £15 107 Ryan a Gabriel Davies, Delfan, Cwmman; £10 7 James a Rhian Thomas, Tudor-Hall, Llanbed; £10 46 Herbert a Glenys Morgans, Rhydowen, Cwmman; £10 175 Tom Harries, Castle-View, Llanllwni; £10 178 Gethin Jones, Croesor, Cwmman; £10 225 Ernie Randell, Blaencwm, Cwmman.

Cymdeithas Amaethyddol
Llanbedr Pont Steffan

Noson yng Nghwmni'r

Welsh Whisperer



11/05/18

Clwb Rygbi Llanbed am 7.30yh

Mynediad: £7 (£5 i blant)

Bydd roliau porc ar werth ar y noson.



Drefach a Llanwenog

Y Gymdeithas Hŷn

Daeth mis Ebrill â chychwyn teithiau'r haf gydag ef, ac ar yr 11eg o'r mis, ymwelwyd ag Eglwys Defynnog yn Sir Frycheiniog. Roedd cysylltiad â Llanwenog ym mherson y Parchedig Moses Williams, offeiriad Plwyf Llanwenog yn gynnar yn y ddeunawfed ganrif, gan symud wedyn i Ddefynnog. Bu'n gweithio hefyd yn Rhydychen o dan ofal Edward Lluyd, ac yn hanesydd amlwg iawn. Casglai lyfrau a dogfennau, a chopïau lawer o'r hen ysgrifau. Cyhoeddodd Feibl newydd yn hwyrach, un yn haws ei ddarllen, a'i uchelgais oedd rhoi addysg i'r werin yn eu mamiaith. Daeth Ficer y Plwyf i gwrdd â ni yn yr Eglwys, a rhoi ei hanes hynafol. Mae yna hen, hen ywen yn y fynwent sydd wedi ei dyddio i fod yn 5,600 o flynyddoedd.

Teithio ymlaen wedyn i Gastell Craig-y-Nos, sef cartref y gantores enwog, Madam Adelina Patti. Rhoddwyd ychydig o hanes cynnar y castell i'r aelodau ar y bws, cyn symud i fewn i'r adeilad. Gwneud ein ffordd i'r theatr hyfryd a godwyd gan Madam Patti, ac yno rhoddodd Yvonne ragor o'i hanes - ymestyn y castell, ei theithiau canu, ei ffrindiau byd-enwog yn y maes cerddorol, tair priodas, a hanes offeryn diddorol oedd ganddi yng Nghraig-y-Nos, sef yr organ, neu'r 'Orchestration'. Caed ychydig o amser i hamddena yno, cyn cychwyn am adref, a theithiwyd dros y Mynydd Du yn ôl i Llangadog, ac yna troi am Landeilo, i gael pryd o fwyd hyfryd yn Y Plough, Rhosmaen.

Bydd y daith nesaf yng ngofal Ann Walters (Brynhogfaen gynt), ac yn mynd i ardal Cwm Gwaun yn Sir Benfro.

Sefydliad y Merched

Wedi gwneud y gwaith Pwyllgor arferol, nodwyd mai hwn fyddai'r cyfarfod olaf i un aelod ffyddlon a gweithgar o Sefydliad y Merched, Llanwenog. Mae Liz Tipping wedi bod yn aelod ers deuddeg mlynedd ac yn ystod yr amser yma wedi bod yn Lywydd, Ysgrifennydd a Gohebydd y Wasg. Rhoddwyd Rhosyn "Ysbrydoliaeth" Sefydliad y Merched iddi yn anrheg.

Yn anffodus roedd y Siaradwr gwadd yn sâl. Gobeithio y bydd y Blismones Sharon Goody a'r ci yn medru dod rhywbryd eto. Newidiwyd y noson felly, yn un cymdeithasol i ffarwelio â Liz. Daeth sawl aelod a danteithion gan gynnwys Prosecco a mefys – a chafwyd Eton Mess blasus iawn. Gwnaeth Pam yn siŵr bod dim ar ôl ar y llwy! Darllenodd Pat, un o'r aelodau, benillion a chafwyd tipyn o hwyl. Dymuniadau gorau i Liz a'i phriod, Phil wrth iddynt symud i fyw i ardal Dinbych y Pysgod.

Neges wrth Liz: Hoffwn ddiolch i chi gyd am eich anrheg hyfryd. Fe fyddaf yn ei drysori ac fe fydd yn fy atgoffa amdanoch i gyd. Diolch hefyd am eich croeso ddeuddeg mlynedd yn ôl ac am eich caredigrwydd a'ch cyfeillgarwch dros y blynyddoedd. Croeso i chi alw i'n gweld yn Sir Benfro. Pob dymuniad da i Sefydliad y Merched Llanwenog i'r dyfodol.

Eglwys Santes Gwenog

Ymfalchïwn, gan bod ein ficer, Y Parchedig Suzy Bale wedi derbyn swydd 'Canon' mewn gwasanaeth arbennig yn Eglwys Gadeiriol Tŷddewi, ar 28 Ebrill. Roedd y gwasanaeth yng ngofal y Gwir Barchedig Joanna Penberthy, Esgob Tŷddewi. Trefnwyd trafndiaeth o Lanwenog er mwyn fod yn bresennol ar yr achlysur arbennig.

Er ein balchder yn nyrchafiad Suzy, fe'n syfrdanwyd gan y newyddion ei bod yn symud i gymryd Ofalaeth Eglwys Rhydaman. Ar ôl wyth mlynedd o wasanaeth trylwyr a ffyddlon, byddwn yn colli'r Parchedig Suzy. Dymunwn pob llwyddiant i chi, wedi ei fendithio gan hapusrwydd a iechyd. Ni fydd Rhydaman yn ddieithr i Suzy gan mae oddi yno y daeth atom i Lanwenog. Yn ôl un o aelodau Rhydaman, 'Dim ond ei chael ar fenthg ywnaethoch chi'!

Yng nghyfarfod Festri'r Pasg, etholwyd y swyddogion canlynol: Wardeniaid - Mr Brian Lewis a Mr Alan Melor; Trysorydd – Mr David Cooper; Ysgrifennydd – Mrs Caroline Davies; 'Clwb Cant' - Mrs Wendy Mellor; Cymdeithas yr Allor – Gwagedd yr Eglwys. Yn ei adroddiad ar gyllid yr eglwys, dywedodd y trysorydd, Mr David Cooper, y byddai'n rhaid treblu'r cyfraniadau personol i gwrdd â chostau blynyddol rhedeg yr eglwys yn llwyddiannus a chyfforddus. Bydd yn rhaid trefnu rhagor o ddigwyddiadau i chwyddo'r coffrau! Diolchodd y Parch Suzy Bale i bawb am eu cefnogaeth a'u cydweithrediad ffyddlon drwy'r flwyddyn, a dymunodd pob llwyddiant a bendith am y flwyddyn bresennol.

Cofiwn am y teuluoedd sydd wedi colli anwyliaid yn ddiweddar, a phawb sy'n anhwylyd naill ai gartref neu mewn ysbyty.

Enillwyr y Clwb Cant misol yn y rhifyn nesaf.

Ysgol Dyffryn Cledlyn

Mae tymor yr Haf wedi dechrau, ac er bod gwyliau'r Pasg wedi bod, rydym ni dal wedi bod yn brysus.

Yn ystod gwyliau'r Pasg, bu nifer o ddisgyblion yr ysgol yn cystadlu yn Eisteddfod Capel y Groes, Llanwnnen. Cafwyd llwyddiant yn yr adran i blant dan 8 oed gyda



Parti Cyd Adrodd Ysgol Dyffryn Cledlyn yn Eisteddfod Capel-y-Groes.

Noa Potter Jones yn fuddugol yn yr unawd, Erin Potter Jones yn ail a Mari Rees yn drydydd. Yn yr adran lefaru, Mari Evans oedd yn fuddugol gyda Mari Rees yn ail a Noa Potter Jones yn drydydd. Yn yr adran i blant o 8 tan oedran gadael ysgol gynradd, Elan Jenkins oedd yn fuddugol yn yr adran ganu a llefaru gyda Swyn Tomos yn ail ac Elen Morgan yn drydydd. Daeth y ddau barti unsain yn gyntaf ac yn ail, ac enillodd y parti llefaru'r wobwr gyntaf yn ogystal. Elan Jenkins enillodd y cwpan am yr unigolyn mwyaf addawol yn y cystadlaethau llwyfan. Da iawn yn wir.

Bu llwyddiant yn yr adran gwaith cartref yn ogystal, ac yn y gystadleuaeth creu bonet Pasg i blant y Cyfnod Sylfaen, cafodd Elliw Davies y wobwr gyntaf a thrydydd gwobr i Mari Rees. Yn yr adran Cyfnod Allweddol 2, cafodd Lucy Moyes y wobwr gyntaf a'i chwaer Katy yn drydydd. Aron Jac Lewis oedd yn gyntaf, ail ac yn drydydd yn y gystadleuaeth collage i blant y Cyfnod Sylfaen a chafwyd y drydydd wobwr i Elan Morgan yn y gystadleuaeth collage i blant Cyfnod Allweddol 2. Bu gwobrau hefyd i ddisgyblion yr ysgol yn yr adran lenyddol i blant Cyfnod Sylfaen gyda Gwenno Mills yn ennill yr ail wobwr ac Esyllt Jones yn drydydd. Yn yr adran lenyddol i blant Cyfnod Allweddol 2, daeth Elan Jenkins yn drydydd.

Bu nifer o blant yn cynrychioli'r ysgol mewn cyngerdd arbennig a drefnwyd gan y Cynghorydd Euros Davies er mwyn codi arian tuag at yr ysgol a C.F.F.I. Ceredigion. Cafwyd eitemau gan y Parti Llefaru, Parti Unsain, Y Côr ac hefyd eitem gan Noa Potter Jones. Diolch i bawb am ein cefnogi ac i Euros am drefnu noson hwyliog iawn.

Bu deg o ferched a deg o fechgyn o flynyddoedd 4, 5 a 6 yn cystadlu yng nghystadleuaeth bêl droed yr Urdd yn ddiweddar. Da iawn i bawb am gystadlu mor frwd.

Bu nifer o blant yn cynrychioli'r cylch yng nghystadleuaeth traws gwlad yr Urdd hefyd.

Llongyfarchiadau i bawb am berfformiadau arbennig.

Prynhawn dydd Gwener, 20 Ebrill, cafwyd prynhawn Gweithgareddau Eco yn yr ysgol lle bu'r disgyblion yn adeiladu byrddau adar a gwestai trychfilod yn ogystal a chreu peli braster, chwynnu a phlannu hadau. Cafwyd prynhawn prysur iawn gyda'r disgyblion yn gweithio'n galed yn yr haul i ddatblygu bioamrywiaeth ar dir yr ysgol. Diolch i Erika Davies am roi o'i hamser i ddod atom ni i helpu gyda'r plannu ac i Euros Davies am helpu gydag adeiladu y tŷ adar.

Cofiwech am Ras Dyffryn Cledlyn a'r gweithgareddau a fydd yn cael eu cynnal ar 7 Mai yn yr ysgol. Croeso cynnes i bawb.

C.F.F.I. Llanwenog

Cafodd cystadleuaeth Cwis Iau'r Sir ei gynnal ddiwedd mis Mawrth a cafodd y canlyniad ei gyhoeddi yn y pwyllgor diweddar. Daeth Tîm B yn gydradd 2il, felly llongyfarchiadau i'r aelodau ieuengaf.

Bu sawl aelod o'r clwb yn cerdded yr arfordir yn ddiweddar i godi arian at elusen y sir. Nid oedd y tywydd yn garedig iawn y diwrnod hynny ond daeth dros 150 o aelodau at ei gilydd yn Aberaeron erbyn diwedd y dydd, lle roedd sawl person blinedig a sawl blister!!

Bu sawl aelod yn cystadlu yn y Gala Nofio yn ystod y mis, ac ar ddiwedd y noson, daeth y clwb yn 3ydd. Da iawn pysgod Llanwenog.

Fe gynhaliwyd cyngerdd yn Ysgol Dyffryn Cledlyn lle roedd elw'r noson yn cael ei rannu rhwng C.F.F.I. Ceredigion a Ysgol Dyffryn Cledlyn. Bu sawl aelod o'r clwb yn perfformio ac roedd yn noson wych o adloniant pur.

Cafwyd sawl noson hynod ddiddorol yn ystod mis Ebrill, gan gynnwys mynd at Gareth Goedwig i gael arddangosfa fwyd, cwrs rhaffau yng ngwersyll yr Urdd, Llangrannog, a noson gwis gan ein llywydd, Eilir Evans.

Dydd Sadwrn, 21 Ebrill, cynhaliwyd Diwrnod Maes Cymru ar faes sioe Caerfyrddin. Roedd

Drefach a Llanwenog



Lois Jones, Nia Morgans, Hafwen Davies a Sioned Davies o Glwb Llanwenog yn ennill y gystadleuaeth C.F.F.I. Byw yn Niwrnod Gwaith Maes Cymru.

Elin Davies ac Owain Jones yn rhan o Dîm a oedd yn cynrychioli Ceredigion yn y Barnu Stoc dan 18. Daethant yn 7fed fel Tîm. Roedd Lois Jones, Nia Morgans, Hafwen Davies a Sioned Davies yn cystadlu yn y gystadleuaeth C.F.F.I. Byw. Ar ôl hir aros, daeth y canlyniad fod Ceredigion ar y brig. Da iawn ferched.

Llongyfarchiadau i Emyr a Enfys ar enedigaeth bachgen bach, Trefor ac hefyd i Llŷr a Tracey ar enedigaeth bachgen sef Gwydion. Edrychwn ymlaen i'w gweld yn nigwyddiadau'r clwb yn fuan.

Pen-blwydd arbennig

Gobeithio fod Stanley Griffiths, Blaenpant wedi joio dathlu pen-

blwydd go arbennig yn ystod mis Ebrill.

Cartref newydd

Erbyn hyn mae Chris, Jessica a Jacob wedi setlo yn eu cartref newydd yn Dolwerdd.

Hefyd croeso cynnes i berchnogion newydd Glannau'r Afon sydd bellach wedi symud mewn.

Hir oes i bawb ar eu haelwydydd newydd.

Taith Tractorau

Cynhelir Taith Tractorau Drefach ar ddydd Sul, 27 Mai i ddechrau o gaeau Maesyrnnon, Drefach am 10.30y.b. Manylion pellach ar gael gan Peter 434342 neu Jeff 481121.

O'r Cynulliad gan Elin Jones AC



Heb os, mae cyfleusterau bysys modern sy'n cysylltu cymunedau Ceredigion a'i gilydd, a gydag ardaloedd tu fas i'n sir yn hanfodol. Felly, ar ôl ymgyrch hir, roeddwn yn falch iawn i groesawu'r bws TIC ar ei ffurf 'coach' newydd, cyfforddus a diogel.

Mae'r bws nawr hefyd yn gweithredu gwasanaeth llawn 7 diwrnod yr wythnos gyda lleihad yn hyd y daith. Mae e hefyd yn hygyrch ac mae'n bosib defnyddio Cerdyn Teithio Rhatach arni. Mae'r gwasanaeth hefyd am ddim i bawb ar y penwythnos.

Mae ymgyrch Band-eang yn dal i barhau gyda nifer fawr o etholwyr yn methu â chael cysylltiad safonol. Ar hyn o bryd, mae gwefan 'Think Broadband' yn nodi mai dim ond 77.1% o leoliadau yng Ngheredigion sydd â chyswllt band eang 'cyflym iawn'.

Mae adolygiad Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda wedi bod o dan sylw yn ddiweddar, gyda chyhoeddiad o'r opsiynau mae'r bwrdd iechyd yn ystyried i'r blynyddoedd sydd i ddod. Dros y blynyddoedd diwethaf, mae nifer yng Ngheredigion wedi brwydro i gadw gwasanaethau ym Mronglais, ac wedi danfon sawl neges i Gaerfyrddin a Chaerdydd, bod ein hysbyty ni yn rhan allweddol o rwydwaith ysbytai Cymru. Does dim amheuaeth gen i fod y gwaith caled yma wedi talu ei ffordd.

Mae adolygiad strategol mwyaf diweddar Hywel Dda yn cadarnhau'r angen i gynnal a datblygu gwasanaethau ym Mronglais. Mae e hefyd yn ymrwmo i ddatblygu gwasanaethau iechyd mewn prif bwyntiau ledled Ceredigion, gyda chanolfannau cymunedol yn Nhregaron, Aberteifi ac Aberaeron, yn ogystal â chanolfan gymunedol yn Aberystwyth. Fe fydd y rhain i gyd yn lleihau pwysau ar Fronglais, ac yn hwyluso profiadau cleifion.

Mae'r cynlluniau hyn yn dangos ymdrech ar y cyd i fynd i'r afael â materion iechyd hirdymor yng Ngheredigion, fodd bynnag, rwy'n awyddus i drafod sut y bydd unrhyw gynigion ar gyfer newid ysbytai yn y de yn effeithio ar wasanaethau i bobl yn nyffryn Teifi. Rhaid ystyried yn ofalus lleoliad unrhyw ysbyty newydd yn yr ardal hon.

**mudiad meithrin**
arbenigwyr y blynyddoedd cynnar Welsh early years specialists

Sgiliau Newydd, Cyfle Newydd

CWRS NEWYDD: Medi 2018 - Awst 2019

Eisiau gweithio gyda phlant ifanc?

Cyfle i ennill cymhwyster Diploma Lefel 3 mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant yn rhad ac am ddim mewn lleoliad blynyddoedd cynnar

Dyddiad cau: 01/06/2018

Cyfleoedd i siaradwyr Cymraeg a dysgwyr da i ymuno yn y cynllun hyfforddi arbennig yma.

01970 639 601
www.meithrin.cymru/lefel3
www.twitter.com/dipl3gofalplant
lefel3@meithrin.cymru

 Arweiniad gan Lywodraeth Cymru Funded by Welsh Government #MeithrinMiliwn



ARWYN VOB ACCOUNTANCY LTD.

ACCA

CYFRIFYDD SIARTREDIG

Maesowen,
Rhydowen,
Llandysul,
Ceredigion.
SA44 4PY

❖ Cyfrifon Blynyddol ac Interim

❖ Ffurflenni Treth Personol ac i Gwmnïau

❖ Cadw Llyfrau gan gynnwys Ffurflenni TAW

❖ Cyflogau a CIS

❖ Cyngor Cyffredinol i Fusnesau ac Unigolion

Gwasanaeth effeithlon prydlon gyda gwên gyfeillgar!

Ffoniwch ni ar
07557 448234

neu

ebost arwyn@avaccountancy.cymru

Llanbedr Pont Steffan

Capel Brondeifi

Ar ddydd Sul, 01 Ebrill - Sul Y Pasg - y gweinidog, y Parch Alun Wyn Dafis, oedd yn gwasanaethu, gan drafod pwysigrwydd ac effaith 'gadgets' ar y byd modern. Ar y Sul canlynol, cynhaliwyd y Sul Pawb Ynghyd - achlysur blynyddol ym Mrondeifi ers degawdau bellach. Cafwyd Cymundeb fel rhan o'r digwyddiad yn ôl yr arfer, gyda'r gweinidog yn gwasanaethu.

Y Parch Alun Wyn Dafis oedd yn y pulpud hefyd y Sul wedyn, 15 Ebrill. Ar Sul 22 Ebrill, cynhaliwyd y Gymanfa Ganu flynyddol yng Nghapel Alltlyblaca.

Ar nos Wener, 20 Ebrill bu criw o blant Brondeifi yn cymryd rhan mewn Cinio Cyfeillgarwch ym Mhrifysgol y Drindod Dewi Sant yn Llambled. Trefnwyd yr achlysur gan Academi Sinoleg a Diwylliant Addysg Sylfaen Chin Kung yn y Brifysgol. Darparwyd lluniaeth arbennig yn ffreetur y Brifysgol a chafwyd noson lwyddiannus a hynod ddiddorol, gyda thorf dda yn mynychu i ddysgu mwy am rai o draddodiadau a diwylliant hynafol rhan arbennig o gyfandir Asia.

Braf cofnodi hefyd fod Mrs Eirene Jones, Pentre'r Eglwys, Pontypridd, wedi dathlu ei phen-blwydd yn 97 oed ar 25 Ebrill. Mae'n dal i gymryd diddordeb mawr ym mhopeth sy'n digwydd ym Mrondeifi, er ei bod hi'n byw yn y de ddwyrain ers blynyddoedd bellach. Mae hefyd yn manteisio ar bob cyfle posib i ddychwelyd i fynychu ambell oedfa yn y capel. Mae Mrs Jones yn llawn bywyd a'n ysbrydoliaeth i bawb sy'n ymwneud gyda hi. Dymuniadau gorau iddi, a chofion cynnes iawn ati gan holl aelodau Brondeifi a'i chydabod yn ardal Llambled.

Banc Bwyd Llambled

Cychwynnwyd Banc Bwyd Llambled gan eglwysi'r dref i ddarparu bwyd i bobl leol mewn argyfwng sy'n cael eu cyfeirio atom gan wasanaethau amrywiol. Erbyn hyn, rydym yn cydweithio gyda dros 20 gwahanol asiantaeth. Darperir pecyn o fwyd sylfaenol i bob hawliwr sy'n ddigon am dri diwrnod, ac mae'r cyfan yn roddedig gan aelodau'r gymuned.

Gwahoddir cyfraniadau o fwyd sych neu tuniau sydd o fewn y dyddiad, e.e. pasta a reis; grawnfwyd breccwast; te a choffi; jam a marmaled; cig a physgod mewn tun; prydiau mewn tun fel stiwd, cyri a.y.y.b; cawl; llysiau a ffrwythau tun, pwdin reis a chwstard mewn tun. Gellir gadael rhoddion yn y capeli/eglwysi lleol neu yn Yr Hedyn Mwstard a Co-op Llambled.

Cymdeithas Hanes Llambled

Yng nghyfarfod mis Ebrill, cafwyd cyfle i ddysgu beth sy'n digwydd

y tu ôl i'r drws du, - hwnnw yn Rhif 10 Stryd Downing, Llundain. Janice Richards oedd y siaradwraig wadd, a bu hi'n ysgrifenyddes yno am 29 o flynyddoedd, yn gyfrifol am dîm o ysgrifenyddion am lawer ohonynt. Yn wreiddiol o East Grinstead, ond erbyn hyn yn byw yng Nghaerfyrddin, adroddodd sut y bu iddi gael swydd ysgrifenyddes yn gyntaf yn yr Adran Addysg a Gwyddoniaeth, ac yna symud ym 1970 i Swyddfa'r Prif Weinidog, lle y bu'n gweithio tan 1999. Esboniodd gynllun adeilad Rhif 10, a'r cysylltiad trwyddo i rif 11 y drws nesaf. Adnabyddwyd y tîm o ferched a weithiau yng nghefn y tŷ fel 'Merched ystafell y gerddi', rhai ohonynt yn teithio hyd a lled y wlad, a thramor, pa le bynnag y teithiau'r Prif Weinidog.

Y Prif Weinidog cyntaf iddi weithio iddo oedd Edward Heath, a theithiodd gydag ef ar ei gwch 'Morning Cloud'. Cyfeiriwyd at nifer o ddigwyddiadau cenedlaethol y bu ef yn gysylltiedig â hwy, nid yn lleiaf Streic y Glowyr. Dilynwyd Edward Heath gan Harold Wilson a'i ysgrifenyddes bersonol, penderfynol Marcia Williams. Dywedwyd fod Harold Wilson yn poeni'n ofnadwy, hyd at barania, bod y gwasanaeth cudd yn ei ddilyn i bob man.

James Callaghan oedd y Prif Weinidog nesaf; dyn trefnus a chanddo gymwysterau arbennig. Hoffai ffermio a bywyd y wlad, a theithiau i Chequers yn fynych. Wedi iddo golli'r Etholiad Gyffredinol, dilynwyd ef gan Margaret Thatcher. Roedd yna barch mawr iddi yn Rhif 10; y staff fel un teulu mawr, ac yn dra sefydlog yn ystod ei Phrif-weinidogaeth hirfaith. Soniwyd am Ryfel y Malinas; Y Rhyfel Oer; y bomio yn Brighton, a'r cynnydd y bu wedi hynny yn yr adran ddiogelwch; dienyddiad dau wleidydd amlwg; Streic y Glowyr; y cynnydd aruthrol ym maint yr ohebiaeth y bu'n rhaid delio ag ef; treth y pen, ac ymddiswyddiad Margaret Thatcher. Bu Denis Thatcher yn gefn mawr a sefydlog i'w wraig tra y bu Margaret yn ei swydd fel Prif Weinidog.

Dilynwyd Mrs Thatcher gan John Major, a wynebodd sialensau lu o fewn y blaid Doriaidd. Pwysleisiwyd ar bwysigrwydd yr Etholiad Cyffredinol y bu iddo ennill, a'r materion yn gysylltiedig â'r Undeb Ewropeaidd. Teimlodd Janice Richards fod John Major wedi chwarae rhan amlwg ac arbennig yn y broses o ddwyn heddwch i Ogledd Iwerddon. Wedi i John Major golli ei ail Etholiad Gyffredinol, Tony Blair ddaeth i gymryd ei le yn Rhif 10, ond gan fod mwy o le yn Rhif 11, symudodd ef a'i deulu yno, ac felly y mae'r drefn o hyd.

Newidiodd awyrgylch y lle yn y cyfnod hynny - roedd pethau'n

llawer mwy anffurfiol eu naws. Meddyliodd fod y Prif Weinidog wedi delio â'r amodau yn dilyn marwolaeth y Dywysoges Diana yn effeithiol iawn.

Diolchwyd i Janice Richards am ei haraith arbennig gan Selwyn Walters, a chyfleuwyd gwerthfawrogiad yr aelodau yn eu cymeradwyaeth.

Bydd y cyfarfod nesaf nos Fawrth, 15 Mai, am 7.30y.h. yn Hen Neuadd y Brifysgol. Cynhelir y cyfarfod blynyddol cyn cael cwmni Rhianon Evans, Tregaron yn cyfleu 'Chwedlau mewn gemwaith'.

Amgueddfa Llambled

Peddiwch ag anghofio'r diwrnod arbennig ar Ddydd Iau, 10 Mai, pan fydd arbenigwr o staff Peter Francis, Caerfyrddin, yn bresennol i brisio'ch trysorau yn ddi-dâl. Bydd yr arbenigwr yno o 11yb hyd at 2yp, ond bydd yr Amgueddfa ar agor o 10 tan 4. Croeso cynnes i bawb i droi mewn.

Diolch

Dymuna Shaun a Rhian, Pleasant View, Llambled ddiolch i bawb am y cardiau a'r anrhegion ar enedigaeth Ella fach.

Dymuna Neville Davies, Pleasant View, Llambled ddiolch yn fawr iawn i bawb am y galwadau ffôn, cardiau a rhoddion a dderbyniodd yn dilyn ei lawdriniaeth yn ddiweddar.

Cymorth Cristnogol

Mae wedi bod yn flwyddyn gynhyrchiol i gangen Cymorth Cristnogol Llambled eleni eto a dros £6,500 wedi ei godi at yr achos ers mis Mai y llynedd.

Erbyn hyn, ry'n ni ar drothwy Wythnos Cymorth Cristnogol 2018 (13 - 19 Mai) gyda chasgliad yn y dre ac apêl at eglwysi a chapeli'r ardal. Yna, nos Iau, 17 Mai am 7 o'r gloch, cynhelir gwasanaeth arbennig yn St. Thomas gyda Tom Davies o Gymorth Cristnogol yn annerch. Mae croeso cynnes i chi ymuno â ni mewn gwasanaeth i fyfyrion ac ysbrydoli.

Croeso swyddogol

Croeso swyddogol i Jason a Geinor Medi i Tan y Bryn, Heol y Gogledd. Maent yno ers misoedd ond yn gweithio ar y tŷ. Gobeithio byddwch yn cartrefu'n dda gyda ni ar Heol y Gogledd.

Merched y Wawr

Cafwyd noson ddifyr iawn yng nghwmni parti Sarn Helen yng nghyfarfod mis Ebrill Merched y Wawr Llambled.

Llywyddwyd y noson gan Gwynfil yn absenoldeb ein llywydd. Dymunwyd yn dda i'r rhai fydd yn cystadlu yn y cystadlaethau chwaraeon ac yn yr Ŵyl Fai Celf a

Chreffft yn Felinfach ar 12 Mai.

Cyflwynodd Barti Llefaru Sarn Helen yn hyfryd iawn a pleser oedd cael croesawu'r aelodau gyda Elin Williams, ein dirprwy lywydd, wrth y llyw. Fe gawsom ein diddori yn hyfryd iawn wrth i Elin ac amryw o'r aelodau roi crynodeb o hanes y parti llefaru llwyddiannus hwn wrth iddynt deithio a chystadlu a'r helyntion a gawsant ers y cychwyn yn 2006. Cawsom eu clywed yn llefaru, yn canu ac i orffen, gwnaethant lefaru 'Parti Llefaru Gorau'r byd'.

Diolchodd Janet yn gynnes iawn iddynt am eu hadloniant hwyliog a thalentog. Dymunodd yn dda iddynt i'r dyfodol. Mwynhawyd paned a bisgedi wedi'i baratoi gan Aerwen, Lyn a Dilwen ac enillwyd y raffl fisol gan Dorothy.

Saethu Clai



Dechrau Mawrth 2018, cafodd Alex Biddulph, Llambled, gynt o Landdewi Brefi, y profiad o gynrychioli Cymru mewn Pencampwriaeth saethu clai 'Down the line' y byd yn Wagga Wagga, Awstralia. Yn gyntaf, cystadlodd mewn cystadleuaeth cenedlaethol Awstralia/Seland Newydd lle roedd dros 700 o bobl yn cystadlu. Cafodd lwyddiant wrth iddo ennill medal arian. Fe aeth ymlaen i saethu ym mhencampwriaeth y byd a gynhaliwyd dros dri diwrnod a daeth yn 4ydd allan o holl gystadleuwyr y Deyrnas Unedig. Aeth Alex ymlaen i gystadlu yn bellach yng Ngorllewin Awstralia lle cafodd lwyddiant mawr wrth iddo ennill y gystadleuaeth ar y diwrnod cyntaf ac hefyd ennill gwobr yr enillydd gorau dros y ddau ddiwrnod. Llongyfarchiadau mawr iddo.

Hoffai Alex ddiolch o galon i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw ffordd tuag at ei daith i Awstralia.

Gorymdaith Gwyl Dewi

Dymuna Pwyllgor Gwyl Dewi ddiolch o galon i noddwyr yr Orymdaith a'r gig sef cwmni W.D.Lewis, LAS, Coleg Prifysgol y Drindod Dewi Sant, Pedr, Clwb Cinio Llambled, y Cyngor Tref,

Llanbedr Pont Steffan



Plant, ieuenctid a rhieni a gymrodd rhan mewn Oedfa arbennig yn Noddfa yn ddiweddar. Mae Beca a Gwenllian yn absennol o'r llun.



Dros wyliau'r Pasg, bu Rhun Davies allan yn Barcelona yn cystadlu yn nhwrnament pêl-droed gyda thîm 'Cyn Academi Caerfyrddin'. Llwyddodd y tîm i ennill y twrnament yn erbyn sawl tîm o wledydd gwahanol. Dymuna Rhun ddiolch o galon i Oh My Cod, ITech Repair ac Empire Garage am ei noddi i fynd allan yno i gystadlu. Cafodd wythnos anhygoel. Roedd yn brofiad bythgofiadwy iddo. Gweler Rhun yn dal y cwpan enfawr a ddaeth nôl i Gymru gyda nhw!

cyngor sir a'r problemau ynglŷn â chau ysgolion bach a'r iaith Gymraeg yn dilyn y mewnlifiad. Yn Nyfed, a oedd yn cynnwys y tair sir bresennol, bu'n Gyfarwyddwr Addysg ac yna'n Brif Weithredwr a bu eto ynghanol amryw o frwydrau ynglŷn a'r iaith. Mae John yn briod â Bethan sydd yn awdures amryw o lyfrau a rhaglenni teledu.

Cymanfa Ganu'r Bedyddwyr

Cynhelir Cymanfa Ganu Bedyddwyr cylch Caio a Llambled ar ddydd Sul, 20 Mai am 4 o'r gloch yn Salem Caio. Yr Arweinydd eleni yw Emlyn Davies o Lanybydder sydd yn wyneb cyfarwydd i bawb ohonom. Bu Emlyn yn arwain rihysals y cylch ers dros ddeg mlynedd ar ugain bellach ac felly mae'n bleser eleni ei groesawu atom i arwain y Gymanfa. Yr Organydd yw Elfyn Davies, Bethel Cwm Pedol a'r Llywydd yw Sian Roberts Jones o Gaersalem. Bydd te i bawb yn dilyn y Gymanfa. Felly dewch yn llw i ganu mawl i Dduw. Croeso cynnes i bawb.

Cofiwch am y rihysal ym Methel Silian ar ddydd Sul, 13 Mai am 3:30 y prynhawn dan arweiniad Eiry Jones o Noddfa.

Cydymdeimlad

Estynnir cydymdeimlad dwysaf â'r teuluoedd i gyd sydd wedi colli anwyliaid yn ystod y mis.

Noddfa

Cynhaliwyd Oedfa Deulu yn Noddfa nos Sul, 22 Ebrill yng ngofal un o aelodau ifanc, brwdfrydig

a ffyddlon yr eglwys sef Delyth Morgans Phillips. Mae Delyth yn meddu ar ddawn arbennig iawn o gyflwyno ei chenadwri mewn ffordd syml a chartrefol ond eto gyda neges bwysig i bawb ohonom. Cymerodd fel ei thestun 'Yr Arglwydd a'm cynhaliodd' allan o'r drydedd salm a soniodd bod y geiriau yma i'w gweld ar gapel Ebenezer, sydd wedi ei leoli rhwng Pumsaint a Thalylychau. Trwy gyfrwng y sgrin cafwyd ganddi gyflwyniad byw ac effeithiol iawn.

Diolchodd Alun i Delyth am oedfa fendigedig. Hefyd, dymunodd yn dda i Ann Bowen Morgan sydd yn cael ei sefydlu fel Maer y dref ar ddechrau Mai. Penderfynwyd cyfrannu can punt tuag at Gymorth Cristnogol a diolchwyd i Ann a John am gytuno i gasglu o ddrws i ddrws tuag at yr achos ym Maesfelin a Heol y Bryn. Gwasanaethwyd wrth yr organ gan Janet. Cyn troi tuag adre, cafwyd cyfle i fwynhau paned ac i gymdeithasu.

Adran ac Aelwyd yr Urdd

Estynnir dymuniadau gorau i grwpiau llefaru Adran ac Aelwyd yr Urdd dan hyfforddiant Elin fydd yn cystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol y Mudiad yn Llanellwedd ar ddiwedd y mis.

Hefyd pob lwc i Betrys ac Alwena yn y ddeuawd cerdd dant dan 12, i Elan a Beca yn y ddeuawd cerdd dant bl.10 a dan 19 ac i Heledd Bessent yn yr unawd allan o sioe gerdd 19-25 oed.

Mae dyled yr aelodau yn fawr i Llinos, trefnydd yr ymarferion am ei chyfraniad amhrisiadwy ac i Janet am ei chymorth hithau gyda'r paratoadau.

Bu nifer o aelodau'r adran yn mwynhau penwythnos yng ngwersyll yr Urdd Llangrannog a diolch i Anthea, Amanda, Carys a Llinos am oruchwylio. Cafwyd llawer o hwyl a sbri yn mwynhau amryw o weithgareddau megis sgîo, gwib-gartio, nofio, marchogaeth, bingo a thwmpath dawns i enwi ond ychydig. Bydd yr adran yn cyfarfod nesaf ar nos Fawrth, 1 Mai am 4.30 tan 5.30.

Sainsbury's, Cered a'r Clwb Rotari am eu nawdd caredig. Hefyd, diolch i'r Pantri am baratoi pice bach a danteithion ar y daith.

Gohiriwyd y gig ym mis Mawrth oherwydd y tywydd ond trefnwyd un arall nawr ar nos Sadwrn, 16 Mehefin yn Neuadd Fictoria gyda Bryn Fôn a'r band a Beth Celyn. Tocynnau yn £10 a £5 i blant cynradd gan Ann Morgan 422413, ar y linell docynnau 01545/572350, neu gan Ysgol Bro Pedr. Sicrhewch eich tocyd ar unwaith!

Anterliwt Cwmni Morlan

Cafwyd noson arbennig yn Ysgol Bro Pedr ar nos Fercher, 16 Ebrill wedi'i threfnu gan Ferched y Wawr a Phlaid Cymru Llambled. Cafodd yr anterliwt ei hysgrifennu gan 7 o feirdd ifanc, llawn asbri a hwyl a'r actio yn fendigedig. Mwynhaodd tyrfa ardderchog y sioe a gwnaethpwyd £275 o elw tuag at Gronfa leol Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion 2020. Diolch i Ysgol Bro Pedr am y neuadd a Theatr Felinfach a Huw Evans am eu cymorth yn rhad ac am ddim.

Grŵp Trafod Amaethyddol

Croesawyd Cwmni Gwili Jones atom i gyfarfod 23 Ionawr. Cawsant eu llongyfarch ar ennill Gwobr Busnes Gorllewin Cymru 2018 – y Categori Amaeth yr wythnos hon. Cafwyd cyflwyniad a hanes y cwmni gan Nigel Davies – cwmni adnabyddus iawn yn yr ardal yn cyflenwi tractorau New Holland a nifer o beiriannau amaethyddol eraill. I ddathlu 70 mlynedd ers sefydlu'r cwmni gan Gwili Jones, trefnwyd 'Tractor Run' a chodwyd swm sylweddol iawn i elusen RABI. Roedd Mrs Eileen Jones yn bresennol yn y cyfarfod ynghyd a Shan a nifer o staff y cwmni.

Rhys Thomas o Gwmni Bomford Turner a roddodd yr ail gyflwyniad drwy gyfleu hanes sefydlu'r cwmni hyd at heddiw. Maent yn cynhyrchu peiriannau torri cloddiau a phorfa yn bennaf.

Paratowyd lluniaeth ar gyfer yr

aelodau a raffl drwy garedigrwydd Gwili Jones. Talwyd y diolchiadau gan Dai Davies, Tynloff gan nodi fod y gymdeithas gyfan yn elwa o garedigrwydd a gwasanaeth cwmni Gwili Jones. Cyhoeddodd Anwen Hughes fod UAC yn trefnu Brecwast yn ystod yr wythnos yn Nhregaron ac Aberaeron a chyfarfod Merched mewn Amaeth.

Y Gŵr Gwadd ar 6 Chwefror oedd Bleddyn Davies o Dalgarnog oedd yn cynrychioli Pwyllgor Rhyngwladol C.F.F.I. Ceredigion. Mae'n gweithio i Gyswllt Ffermio. Ymwelodd ag Illinois yn Awst 2016 am 22 diwrnod a chafwyd cyflwyniad o'r daith ddiddorol honno ganddo o ddiwrnod i ddiwrnod drwy sleidiau. Roedd popeth ar raddfa enfawr yno a chafodd brofiadau bythgofiadwy. Nodwyd ei fod yn Lysgennad Ifanc yr NSA am 2018 a dymunwyd yn dda iddo yn y swydd honno. Diolchodd Jonathan Jones, Derigoch iddo am roi o'i amser i ddod atom ac am noson hwylus iawn.

I ddilyn, cynhaliwyd y Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol – hanes yn y rhifyn nesaf.

Tripiau: 3 Mai – Ffatri CAT yn 'Leicester'. 10 Mai – Bwydydd Lloyds, Croesoswallt. 27 Medi i 2 Hydref – Orkney a Shetland, Yr Alban. Unrhyw aelod sydd a diddordeb i roi gwybod i Aneurin Davies cyn gynted a phosib.

Lansiad Agor Cloriau

Bydd cyfrol o atgofion John Phillips, Maesyllan yn cael ei lansio yng Nghapel Shiloh, Llambled ar nos Iau, 10 Mai am 7 o'r gloch dan y teitl 'Agor Cloriau'.

Mae John wedi byw yn Llambled oddi ar 1976. Yn y gyfrol, mae'n sôn am ei fagwraeth yn fab i golier ar 'Y Waun' sef Gwauncaegurwen, ei yrfa yn y fyddin ac fel athro yn yr 'East End' yn Llundain. Wedi hynny, bu'n gweithio yng nghymoedd y De cyn cael ei benodi'n ddirprwy ac yna'n Gyfarwyddwr Addysg yr hen Sir Aberteifi yn 1965.

Mae'n sôn am lawer o'r cymeriadau amlwg oedd ar y

Lansio Cyfrol o Atgofion
John Phillips, Llanbed

AGOR CLORIAU

yng Nghapel Shiloh
Llanbed

Nos Iau 10fed Mai
am 7 o'r gloch.

Llanybydder

Côr Lleisiau'r Werin

Ar noson aeafol ym mis Chwefror, bu'r côr yn canu ym mhrifysgol Dewi Sant Llambled i ddathlu'r flwyddyn Newydd Tsieinaidd. Yn wahanol i'r hinsawdd, roedd y croeso yn gynnes a'r bwyd yn lliwgar a blasus. Mwynhaodd y gynulleidfa ein hamrywiol ganeuon Cymreig ac mae'r gymdeithas yn gobeithio y byddwn yn gallu eu diddanu eto yn y dyfodol.

Ar 20 Ebrill, Neuadd Coed-y-Bryn oedd y lleoliad lle canwyd nifer o ganeuon adnabyddus yn cynnwys rhai o waith Tydfor a T. Llew Jones, gan ein bod yn ardal beirdd Crannog. Cafwyd hefyd eitemau swynol gan Deiniol a Rhodri Organ o Goed-y-Bryn ac yn cadw trefn ar bawb oedd Owain Davies, Llanllwni. Diolch o galon i wragedd pwyllgor y neuadd am y wledd ar y diwedd, yn enwedig y cupcakes, a'r holl ddanteithion melys eraill.

Ar 27 Ebrill, bu'r côr yn canu yn noson goffi blynyddol pwyllgor Buddiannau Henoed Llanybydder yn festri Aberduar. Cawsom fwynhad wrth ganu a gobeithio i'r gynulleidfa gael yr un pleser. Roedd plant yr ysgol gynradd hefyd yn cymryd rhan ac ychwanegodd hyn at naws arbennig y noson.

Ŵyr newydd

Llongyfarchiadau i Meryl ac Anthony Davies, Maes y Barcud ar ddyfodiad ŵyr bach newydd – mab bach, Gwydion Llŷr i Llŷr a'i wraig Tracey yn Llanfihangel-ar-Arth a brawd bach i Ioan. Hefyd, gor-ŵyr bach arall i Glenys ac i Ieuan a Thelma Jones.

Diolch

Dymuna Vivian, Heol-y-Gaer roi diolch am y cardiau, anrhegion, galwadau ffôn, ac i'r rhai a alwodd yn y tŷ ar achlysur ei ben-blwydd yn wyth deg yn ddiweddar. Gwerthfawrogaf y cyfan.

Swyddogion y Carnifal

Ar nos Wener 20fed o Ebrill cynhaliwyd noson ddawns i ddewis swyddogion Carnifal Llanybydder yng Nghlwb Rygbi Llanybydder.

Roedd yn noson lwyddiannus dros ben a chafodd y plant amser da. Llongyfarchiadau i'r canlynol am gael eu dewis i fod yn swyddogion: Brenhines y carnifal – Cerys Lloyd; Morwynion – Amy Rees a Gweno Jones; Brenhines y tylwyth teg – Soffia Draycott Evendon; Tywysog – Prys Jones.

Bydd y carnifal ar 30ain o Fehefin, gorymdaith i ddechrau am 12.30yp o faes parcio'r Llew Du ac i ddechrau yn y Cae Rygbi am 1.00yp. Thema'r gwisgoedd yw 'Disney'.

Noson y carnifal yn y Llew Du – bydd disgo i'r plant am 6.00yh gyda disgo ac adloniant gan y gantores Kiri Leigh i'r oedolion o 8.00yh.

Sioe Theatrïg Raddfa-fawr

Ddau gan mlynedd yn ôl, ar y caeau y tu allan i Gapel Neuadd-lwyd, daeth tua 5,000 o bobl ynghyd i ffarwelio â dau ddyn ifanc lleol a'u gwagedd. Roedd David Jones a Louisa, a Thomas a Mary Bevan, yn dechrau ar eu taith i genhadu'r ffydd Gristnogol ar ynys bell Madagascar. Erbyn heddiw, mae dros 5 miliwn o Gristnogion yn aelodau o eglwysi ym Madagascar sy'n olrhain eu hanes yn ôl i'r cenhadon o Gymru a gyrhaeddodd yno yn 1818.



93 o bobl yn ymarfer cyntaf y côr a fydd yn rhan o'r sioe ddathlu 'Y Freuddwyd'

Ar 8 Mehefin eleni, bydd sioe theatrig raddfa-fawr yn cael ei chynnal yng Nghelaeron, ar fferm Penrhiw yn Neuadd-lwyd lle magwyd David Jones. Mae'r sioe 'Y Freuddwyd' wedi'i hysgrifennu gan griw o aelodau o'r capeli annibynnol lleol – ac mae'r hanes yn rhyfeddol.

Mae Dafydd Tudur, Cadeirydd Is-bwyllgor Gweithgareddau'r Dathlu, yn edrych ymlaen at yr her: "Bydd sioe 'Y Freuddwyd' yn cael ei pherfformio mewn lleoliad anghyffredin o fewn i'r union filltir sgwar ble magwyd y cenhadon, gyda chôr cymunedol o dros 100 o leisiau, a thros 70 o bobl wedi teithio yno o Fadagascar i ymuno yn y dathlu. O ystyried hyn, ac o wybod pa mor rymus yw'r hanes, mae'n argoeli i fod yn brofiad bythgofiadwy i bawb fydd yno."

Y cyfarwyddwr profiadol Euros Lewis fydd yn cynhyrchu'r sioe, "Dwi'n edrych ymlaen at lwyfannu'r sioe fawr hon gan obeithio y bydd yr egni a ddaw ohoni yn ein nerthu i gwrdd â heriau mawr 2018 â hyder a brwdfrydedd - yn union fel a wnaeth bechgyn ifainc 1818."

Yn rhan o'r sioe bydd côr newydd lleol yn perfformio'r gân 'Drws nesa' dros y don' – y geiriau gan y Prifardd Ceri Wyn Jones a'r gerddoriaeth gan Eric Jones. Comisiynwyd y gân yn arbennig ar gyfer y dathliadau gan Marina James sy'n un o aelodau Capel Neuadd-lwyd. Roedd Capel Llwynceilyn dan ei sang ar gyfer ymarfer cynta'r côr, sy'n cynnwys cantorion profiadol, aelodau o gorau lleol a phobl nad ydynt wedi canu mewn côr erioed o'r blaen! Cafwyd tipyn o wefr, ac yn wir cafodd ambell un brofiad ysbrydol, wrth i'r côr ganu'r gytgan mewn pedwar llais am y tro cynta' dan arweiniad Heledd Williams, Derwen Gam. "R'yn ni'n ddiolchgar iawn i Marina James am gomisiynu cân mor arbennig ar gyfer y dathliadau," medd Heledd. "Mae'r geiriau a'r gerddoriaeth yn wych ac mae ymateb pobl leol i'r cais i greu côr wedi bod yn ardderchog hefyd. Mae'n braf gweld cynifer yn mynychu'r ymarferion ac yn mwynhau'r dysgu a'r cymdeithasu."

Mae'r sioe hon, a gynhelir am 7.30pm ar nos Wener 8 Mehefin, yn rhan o ddathliadau glaniad cenhadon Madagascar, sy'n cyd-daro ag wythnos o gyfarfodydd blynyddol Undeb yr Annibynwyr Cymraeg yn ardal Aberaeron ddechrau Mehefin. Cynhelir cyngerdd sy'n ddathliad o ddiwylliannau'r ddwy wlad ar y nos Sadwrn yn Neuadd Goffa Aberaeron, ac mae digwyddiadau eraill y dathlu'n cynnwys arddangosfa, oedfa ddathlu a ffilm o leoliadau nodedig yn yr hanes.

Dyma fanylion y digwyddiadau eraill:

- 8 Mehefin, 10am, Gwibdaith i Gapel Neuadd-lwyd i weld ffilm o leoliadau arwyddocaol yn hanes David Jones a'i gyd-genhadon.

- 9 Mehefin, 11.30am, Lansio Apêl Madagascar yn Neuadd Goffa Aberaeron.

- 9 Mehefin, 2pm, Oedfa Dathlu Cymru – Madagascar yn Capel y Tabernacl, Aberaeron.

- 9 Mehefin, 7.30pm, Cyngerdd y Dathlu – yn dathlu diwylliannau Cymru a Madagascar yn Neuadd Goffa Aberaeron.

- 7 – 9 Mehefin, 10am – 4pm, Arddangosfa Dathlu Cymru – Madagascar yn Neuadd Goffa Aberaeron.

Gellir cael mwy o wybodaeth gan Gadeirydd neu Ysgrifennydd Pwyllgor Gwaith y Dathliadau, Gwendoline Evans (01545 580926) a Gareth Ioan (01545 560255). Mae tocynnau'r sioe a'r gyngerdd ar gael gan Theatr Felin-fach.

The Wash Tub

Heol y Gogledd
(gyferbyn â'r gofologfn)
01570 423647

Gwasanaeth o safon uchel:
smwddio, golchi, sychu
ac yn golchi *duvets*.
Sychlanhau ar y safle.




Graham Jones

Gwasanaethau Cyfrifiaduron

- ★ Datrys Problemau a Trwsio
- ★ Ymweliadau Cartref
- ★ Cyfrifiaduron, Gliniaduron a
- ★ Pherifferolion Ar Werth
- ★ Gwasanaeth Dylunio Gwefan

Ffôn 01545 560776
neu 07715 740777
www.tynici.com

graham@tynici.com



T: 01570 423884
e: dawnsemporium@gmail.com

S: 07900 370537
f: dawnswelshgifts

Ruth Thomas a'i Chwmni Cyfreithwyr

Adeiladau'r Llywodraeth,
Heol Pontfaen, Llambled
Ffôn: 423300 Ffacs: 423223
mail@ruththomassolicitors.co.uk

yn cynnig pob gwasanaeth
cyfreithiol
Apwyntiadau hwyr neu yn eich
cartref

Ymgynghorwyr Yswiriant Eryl Jones Cyf

Beth am gysylltu â ni am amcan-bris
i'ch holl anghenion yswiriant?

Car, lori, fan,
beic modur

Yswiriant tŷ/
cynnwys

Tai Bwyta / Siopau

Fferm a busnes

Cyfrifoldeb

Anifeiliaid

Polisiau Cystadleuol i bob math o yswiriant,
cyngor a chefnogaeth yn rhad

Swyddfa'r Hen Fanc, 6 Stryd Fawr
Llanbedr Pont Steffan, SA48 7BA

Ffôn: 01570 422401
E-bost: carol@ejic.co.uk

Mae Eryl Jones Ymgynghorydd Yswiriant yn awdurdodedig ac yn rheoleddig
gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol

Llanllwni

Ysgol Llanllwni

Croeso i saith o ddisgyblion newydd sydd wedi dechrau ym mlwyddyn Meithrin yn nosbarth y Cyfnod Sylfaen y tymor yma sef Loti, Beca, Catrin, Macs, Rhodri, Victoria a Kacper. Maent yn setlo yn dda iawn ac yn hapus yng nghwmni eu ffrindiau newydd.

Llongyfarchiadau i Elan ac Efa ar eu llwyddiant yn Eisteddfod Llanfihangel ar arth adeg y Pasg. Cafodd Elan gyntaf yng ngwaith Celf trwy dynnu llun ar y thema "Chwedlau". Cafodd Efa ail am ganu "Wedi'r Gaeaf" yn yr Unawd Blwyddyn 3 a 4. Da iawn chi ferched.

Diolch i Gwmni Statkraft am ariannu y murlun lliwgar a welir ar wal allanol yr ysgol sy'n dangos nodweddion yr ardal lleol. Bu plant hŷn yr ysgol yn helpu'r peintwyr o Gwmni Sblat i beintio'r murlun cyn gwyliu Pasg.

Bu Tudur a Caio yn cystadlu mewn cystadleuaeth Trawsgwlad Sirol yr Urdd yn Aberaeron ar ddechrau'r tymor. Daeth Tudur yn 11 allan o 60 o redwyr a Caio yn yr hanner uchaf o hanner cant o redwyr. Da iawn chi'ch dau.

Cofiwch am ein cyngerdd sydd yn cael ei threfnu gan Gymdeithas Rhieni, Athrawon a Ffrindiau'r Ysgol. Mae croeso i bawb ddod i Gapel Nonni ar Nos Wener, 4 Mai am 7:30 i glywed plant yr ysgol a Parti Bois Ar Wasgar, gyda Mr Owain Davies yn arwain y noson. Pris mynediad bydd £5 a mae tocynnau ar gael yn yr ysgol neu wrth y drws.

Dyma enillwyr Clwb Cefnogwyr yr ysgol Mis Ebrill. 1af, £10, Kenneth Davies, 1 Maesyberllan, Gwyddgrug. 2ail, £5, Rhian Davies, Dolifor, Llanllwni. 3ydd, £5, Mandy Jones, Nanthendre Upper Farmhouse, Llanllwni.

Cylch Meithrin Llanllwni

Croeso cynnes i Alys, Jac, Tomos a Sophie sydd wedi ymuno a'r Cylch ar ddechrau'r tymor!

Bu'r cylch yn llwyddiannus dros ben yn ddiweddar wrth dderbyn safon seren arian gan y Mudiad Meithrin. Golyga hyn bod ansawdd y Cylch wedi cyrraedd safon uchel ac mae hyn wedi cael ei adnabod gan banel o staff y mudiad. Bydd y Cylch yn derbyn y plac yr wythnos hon ac yn dathlu trwy gael parti.

Ar 27 Ebrill, fe wnaeth y Cylch gymryd rhan mewn digwyddiad codi arian y mudiad trwy gynnal parti pyjamas mwya'r byd.

Bydd cyfarfod blynyddol y Cylch yn cael ei gynnal ar 3 Mai am 8yh. Croeso i aelodau hen a newydd.

Mae Cylch Meithrin Llanllwni yn rhedeg ar foreau dydd Llun, Mawrth, Mercher a Gwener ar gampws yr ysgol gynradd, rhwng 8.45-12.

Cynigir addysg a gofal o safon uchel trwy gyfrwng y Gymraeg i blant 2 oed tan oedran ysgol. Os hoffech fwy o wybodaeth, cysylltwch â Helen Davies ar 07377 781977 neu cylchmeithrinllanllwni@yahoo.co.uk.

Cylch Ti a Fi Llanllwni

Cynhelir Cylch Ti a Fi ar foreau dydd Iau yn ystod y tymor, rhwng 10-12yb ar gampws yr ysgol gynradd. Croeso i rieni, gofawyr, mamgu a thadcu i ddod gyda'u plant i fwynhau gwahanol weithgareddau a chyfle i gael sgwrs dros banded.

C.F.F.I. Llanllwni

Ar Nos Wener y Groglith, cynhaliwyd noson dewis Llysgenhaddon y Sir ble ddaeth llwyddiant i Llanllwni. Llongyfarchiadau enfawr i Arwel Jones am gael ei ethol fel Llysgennad i Sir Gâr am y flwyddyn 2018-19, ar ôl blwyddyn anhygoel Siôn Evans fel Llysgennad y Sir. Llongyfarchiadau enfawr i'r ddau.

Ar ôl yr holl ddathlu, fe wnaethon ni gael amser i ymlacio wrth wrando ar gyflwyniad Siân Elin Williams, Cwmann ac Ynyr James, Capel Iwan o deithio. Diolch yn fawr i chi am ddod, ac edrychwn ymlaen at weld ble ewch chi nesaf.

Cynhaliwyd Diwrnod Gwaith Maes y Sir ar Ddydd Sadwrn, 7 Ebrill yng Nghaerfyrddin lle wnaeth y clwb gael cryn lwyddiant. Llongyfarchiadau i bawb. Dyma'r Canlyniadau: Codi Ffens hŷn - Siôn Evans, Arwel Jones a Hefin Jones - 1af. 'Mood Board' Peiriant Breuddwydiol - Hefin Jones - 1af. Sgiliau Gweithdy - Arwel Jones, Hefin Jones, Aled Jones a Catrin Evans - 1af. Stocmon Hŷn y flwyddyn - Anwen Jones - 2il.

Ar ôl y llwyddiant yn niwrnod Gwaith Maes y Sir, fe wnaeth Llysgenhaddon y Sir 2017-18 gynnal noson er mwyn codi arian at elusen CGD. Diolch am noson yn llawn hwyl a llongyfarchiadau i'r llysgenhaddon am y flwyddyn, ond yn enwedig i Siôn Evans o Lanllwni.

Fe aeth y clwb i Aspirations fel rhan o'n rhaglen a'r trip dirgel. Diolch am noson llawn o fwynhau.

Ar ôl i Eisteddfod Llanfihangel gael ei hail drefnu, fe wnaeth rhai o aelodau'r clwb gymryd rhan yn y parti canu a ddaeth yn 2il a'r ensemble lleisiol yn 1af. Llongyfarchiadau i bawb.

Diolch i Glwb Cwmann am y gwahoddiad i fynd i'ch social chi. Fe wnaeth pawb fwynhau yn fawr iawn! Edrychwn ymlaen am social eto cyn hir!

Sir Gâr oedd yn cynnal Gwaith Maes Cymru eleni, ac fe ddaeth digon o lwyddiant i'r clwb. Llongyfarchiadau i bawb, a dyma'r canlyniadau: Sgiliau Gweithdy - Hefin Jones, Arwel Jones, Aled Jones



Disgyblion Ysgol Llanllwni o flaen y murlun newydd.



Aelodau Clwb Llanllwni yn gyntaf yn Niwrnod Gwaith Maes Cymru yng nghystadleuaeth Sgiliau Gweithdy - Hefin Jones, Arwel Jones, Aled Jones a Catrin Evans.

a Catrin Evans – 1af. Tîm Stocmon y Sir - Anwen Jones yn rhan o'r Tîm – 1af. Unigolyn Gorau Barnu Stoc Hŷn - Anwen Jones – 3ydd.

Erbyn nawr, ymarfer ar gyfer Rali'r Sir sydd ymlaen. Edrychwn ymlaen am ddiwrnod y Rali. Dewch i Faes y Sioe, Nantyci, Caerfyrddin ar 12 Mai i gefnogi'r clwb. Bydd y canlyniadau yn y rhifyn Clonc mis nesaf.

Diolch

Dymuna John Lloyd, Susan a theulu y diweddar Sean Lloyd, Gilfachreda ddiolch o galon am y cardiau, galwadau ffôn a'r caredigrwydd yn ystod ei profedigaeth. Hefyd, diolch am y cyfraniadau a dderbyniwyd tuag at Elusen Clefyd y Siwgr ac Ambiwllans Awyr Cymru.

Eglwys Sant Luc

Clwb 100 Ebrill. £15.00 - Heather Jones (rhif 55); £10.00 - John ac Ivy Evans (81); £10.00 - Kevin Doyle (45). Llongyfarchiadau, a diolch i bawb am gefnogi.

Undeb y Mamau

Daeth y tymor i ben gyda Eluned Davies, Dihewyd yn dangos ei gwaith llaw gwyh. Roedd nifer fawr o eitemau gyda hi, a phawb yn rhyfeddu at ei diwydrwydd. Diolch yn fawr Eluned.

Llongyfarchiadau a hwyl fawr

Yn ddiweddar, cafwyd y newyddion da fod y Parch. Suzy Bale i'w anrhydeddu gyda sedd Canon yn y Gadeirlan yn Nhŷ Ddewi. Mae teulu'r Eglwys yn ei llongyfarch yn gynnes, ac yn ymfalchïo drosti. Yn anffodus, doedd y newyddion a dderbyniwyd yn fuan wedyn ddim gystal. Mae'n Ficer yn gadael y grŵp am ardal Rhydaman, ac fe fydd colled fawr ar ei hôl. Er hyn bydd yn gadael gyda'n dymuniadau gorau am yrfa lewyrchus.

Cyfarfod Blynyddol Papur Bro Clonc

yng Ngwesty Crosshands,
Llanybydder
Nos Fawrth 15fed Mai
am 7 o'r gloch

Croeso cynnes i bawb, dim ond i chi ein hysbysu'n gyntaf er mwyn archebu bwyd.

Rhifyn Mehefin
yn y Siopau
7 Mehefin
Erthyglau, Newyddion
a Lluniau i law erbyn
28 Mai



Mis Mai, Mis y Merllys (Asparagus)

Mis Mai yw'r mis pan fod y Merllys Prydeinig yn ei dymor, felly manteisiwch ar y llysieuyn unigryw yma. Mae'n un o foddhad y Gwanwyn – yn amrywio mewn maint a lliw – o wyn i rai â gwawr borffor.

Maent yn cyd-fynd yn dda gyda eog, wyau, meny, saws Hollandaise, neu yn addurn i bryd bwyd. Prynwch hwynt mor ffres a sydd yn bosib. Mae modd eu coginio mewn sawl ffordd, ond y symlaf yw eu berwi nes yn dyner, neu eu stemio mewn sosban bwrpasol.

Dyma gasgliad o rysetiau sy'n cynnwys Merllys fel y prif flas i chi i'w mwynhau.

Pob hwyl,
Gareth

Merllys wedi lapio mewn Pancetta

Cynhwysion

- 200g. merllys
- 16 tafell denau o Pancetta
- Ychydig o olew
- 1 pot Crème fraîche
- 1 lemwn
- Pupur du
- Ychydig o ddail dil



Dull

1. Trowch y ffwrn i wres 190C / 375F / Nwy 5. Cymysgwch sudd a sest y lemwn a'r dail dil wedi eu malu, yna ychwanegwch y crème fraîche.
2. Lapiwch y pancetta o amgylch y merllys. Sgeintiwch ag olew a phupur. Gosodwch ar dun pobi, a phobwch am tua 6-7 munud. Gweinwch yn gynnes gyda'r saws.

Risotto merllys

Cynhwysion

- 400g merllys
- ¾ pint stoc llysiau
- 25g. meny
- 1 winwnsyn wedi ei dorri'n fân
- 140g reis risotto
- 3 llwy fwrdd o win gwyn
- 25g caws Parmesan
- 1 llwy fwrdd o berlysiau ffres



Dull

1. Berwch y merllys mewn ychydig o ddŵr am tua 4 munud. Draeniwch a chadwch y dŵr.
2. Torrwch y merllys yn ddarnau 2 fodfedd.
3. Cynheswch stoc llysiau mewn sosban nes ei fod yn mud-ferwi.
4. Mewn sosban arall, toddwch y meny a meddalwch y winwnsyn. Yna, i mewn a'r reis a choginiwch am tua 2 funud. Tywalltwch y gwin i mewn, ac yna ychwanegwch y stoc yn araf – dylai hyn gymryd tua 10 munud.
5. Trowch y merllys iddo, a stoc y merllys, a choginiwch am tua 8 munud, nes ei fod yn dyner ac yn hufennog.
6. Tynnwch o'r gwres, a thaenwch y caws a'r perlysiau drosodd.
7. Gweinwch gydag ychydig mwy o gaws parmesan.



Cyngor Cymuned Llanwenog

Cadeirydd: Cyng. Geraint Davies. Clerc: Gwennan Jenkins.

Llongyfarchiadau i Gyngor Cymuned Llanwenog ar dderbyn tystysgrif 'Canmoliaeth Uchel' yng ngwobrau Un Llais Cymru sef y sefydliad sy'n cynrychioli cynghorau tref a chymuned yng Nghymru. Derbyniwyd y wobwr yng nghategori 'Menter Ymgysylltu Cymunedol Orau' ac roedd y gystadleuaeth yn un gref gyda Llanwenog yn cystadlu yn erbyn Cynghorau Thref mawr megis Caerdydd a Llanelli. Diolch i'r Cyng. Hazel Thomas a'r Cyng. Alwena Williams am gynrychioli'r Cyngor Cymuned yn y gynhadledd a rhoi cyflwyniad ar ein rhan.

Derbyniwyd y wobwr am y gwaith sydd wedi ei wneud yn ystod y blynyddoedd diwethaf yn y gymuned megis ail-wampio'r Ciosgs Coch gyda lle cadw llyfrau a jig-so, Diffibriliwr a bwrdd arddangos; cynnal digwyddiad Taith Dros Fywyd yn flynyddol gan wneud taith addysgiadol yn adrodd hanes y Plwyf yn rhan ohono a defnyddio'r llwybrau cyhoeddus ynghyd â chodi arian at elusennau; cymryd swyddogaeth ymddiriedolwyr y gofologofn yn Nre-fach; cynnal gwasanaeth Sul y Cofio; sicrhau bod y gofologofn yn medru cael ei symud er mwyn creu mynedfa i Ysgol Dyffryn Cledlyn; les cae chwarae Cae Sarn wedi ei gymryd gan y Cyngor Cymuned er mwyn rhoi siawns i'r pentref gynnal y maes chwarae a darparu parc i blant y pentref a'r ardal; cynnal digwyddiadau hyfforddi defnyddio diffibriliwr; noson hanes Plwyf Llanwenog gan Simon Evans; a noson agored gyda Chomisiynydd yr Heddlu. Yn y dyfodol, bydd y Cyngor Cymuned yn cynnal noson agored ar gyfer y gymuned gyfan, a fydd yn siawns i ddod i adnabod y Cynghorwyr, rhannu syniadau a phryderon.

Y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol

Mi fydd CCB y Cyngor Cymuned yn cael ei gynnal Nos Fawrth, 8 Mai am 7.30yh yn Neuadd Bentref Drefach. Wedi'r cyfarfod yma, bydd cofnodion y Cyngor Cymuned ar gael i'w harchwilio gan y cyhoedd am gyfnod o 21 niwrnod, drwy law'r Clerc.

Cyngor Llanybydder

Pob dymuniad da i Mrs Sylvia Maskelyne, Cadeiryddes ein Cyngor. Mae hi wedi cael llawdriniaeth yn yr ysbyty, ac rydym yn edrych ymlaen at gael ei chwmni hi yn ôl gyda ni.

Diolch i Beverley Pold am gynnal ein cyfarfod gan fod ein Cadeiryddes a'n Dirpwy-Gadeirydd ddim yn ein cyfarfod.

Mae'r cynlluniau o gael swing anabl yn y parc yn dal i barhau.

Mae'r Clerc i rhoi gwybod i S Murat, Caffi Rominos i barhau i gadw'r toiledau ar agor.

Gan fod tipyn o faw cŵn yn y pentref, mae'r Patrol Cŵn yn dod i Llanybydder dair gwaith yr wythnos.

Rhoddydd £250 tuag at Junior Football Club, Llanybydder a fydd yn mynd at y chwarae yn y misoedd nesa.

Rhoddydd £500 i Bwyllgor Buddiannau Llanybydder tuag at eu hachos.

Cyngor Bro Llanllwni

Cynhaliwyd cyfarfod Cyngor Bro Llanllwni yn Neuadd Gymunedol Llanllwni, nos Lun, 12 Mawrth 2018 am 8.00yh. Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod.

Cadarnhawyd bod y maes chwarae a'r adnoddau wedi'u harchwilio'n fanwl yn ystod yr wythnosau diwethaf gan Eric Davies. Nid oedd damweiniau i'w cofnodi ar y Cae Chwarae.

Bydd y Clerc yn archebu toiledau i'r cae chwarae o ddechrau Mis Mai tan ddiwedd Mis Medi. Roedd y Cyngor yn dal i aros i'r Cyngor Sir archwilio adnoddau'r Cae Chwarae.

Cytunwyd mai Eryl Jones a'i Gwmni, Llanybydder fyddai'n gyfrifol am gyllid ar ran y Cyngor. Cyflwynwyd y fantolen ddiweddaraf i'r Cynghorwyr.

Mae angen gosod postion ar Dro Beeches.

SLCC - Derbyniwyd gwybodaeth am ochr gyfreithiol gweithgarwch y Cyngor. Roedd y Clerc wedi derbyn ffurflen oddi wrth Cyngor Tref Caerfyrddin i'w gyflwyno i'r Cynghorwyr yn holi a fyddent yn dymuno derbyn tâl blynyddol. Byddai'n rhaid i'r ffurflen cael ei llenwi a'i dychwelyd i'r Clerc cyn dechrau mis Mai.

Achwynwyd mai ffurflen Saesneg yn unig yr oedd y Clerc wedi ei dderbyn oddi wrth Cyngor Tre Caerfyrddin.

Penderfynwyd cefnogi Gofal mewn Galar ac Ysgol Gynradd Llanllwni.

Tyllau yn yr hewl - Ger Park Villa a'r Swyddfa Bost.

Sbwriel - Roedd sofffa wedi ei adael ar y ffordd ger Pentop. Byddai'r Clerc yn cysylltu â'r Cyngor Sir.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu presenoldeb a'u brwdfrydedd dros y plwyf. Bydd y cyfarfod nesaf yn Neuadd Gymunedol Llanllwni ar 14 Mai 2018 am 8.00yh.



Mwy na brocer yswiriant.
Mwy na yswiriant fferm.



Gweithio'n lleol? Byw'n lleol?
Yswirio'n lleol.

Gwasanaethau Yswiriant FUW

21 Stryd Fawr, Llanbed
Ceredigion, SA48 7BG

Swyddfa: 01570 422556

www.fuwinsurance.co.uk

Mae Gwasanaethau Yswiriant FUW Cyf yn cael ei awdurdodi a'i reoli gan y
"Financial Conduct Authority". Rhif Cofrestru 615251.

Sefydlwyd 1797

D. Lloyd a'i Feibion

Glanrwyth, Pumsaint,

Ffôn: 01558 650209 a 650451,

**Masnachwyr coed, ffensio
a nwyddau adeiladu o
bob math. Tanwydd gan
gynnwys nwy FloGas a
glo caled a meddal o'r
ansawdd gorau**

Campws Iau

Cynhaliwyd disgo ar ddiwrnod olaf y tymor a drefnwyd gan Gyngor Tref Llanbedd a diolch iddynt am eu haelioni. Bu pawb yn mwynhau dawnsio yn y disgo a chafwyd prynhawn llawn o hwyl a sbri.

Da iawn i bawb o Ysgol Bro Pedr a fu'n rhedeg yng nghystadlaeth Trawsgwlad y Sir a llongyfarchiadau arbennig i Liam Regan ar ddod yn ail (bechgyn bl.5), Ellie Maie ar ddod yn 4ydd (merched bl.4), Leah Regan yn 6ed (merched bl.6) a Jake Lewis yn 10fed (bechgyn bl.3).

Diolch yn fawr iawn i Mr a Mrs Pink sydd wedi bod yn addysgu ac yn gweithio ar ddatblygu sgiliau garddio'r disgyblion yn Ysgol Bro Pedr. Gwerthfawrogn eu gwaith yn fawr ac edrychwn ymlaen at gael blasu'r llysiau hyfryd sydd wedi cael eu plannu ac i weld y blodau hardd yn blodeuo.

Llongyfarchiadau i dîm pêl-droed Ysgol Bro Pedr ar gyrraedd y rownd gyn-derfynol yng nghystadlaeth Sirol yr Urdd wedi iddynt ennill pob gêm yn y grŵp. Diolch i Mr John am eu hyfforddi. Gwnaeth merched Ysgol Bro Pedr yn arbennig o dda yng nghystadlaeth pêl-droed yr Urdd yn ddiweddar a diolch i Mr Davies a Mrs Davies am eu hyfforddi. Daliwch ati. Bu rhai o ddisgyblion bl. 2 a 3 yn mynychu clwb garddio ar ôl ysgol gan fwynhau dysgu am y planhigion a'r blodau yn yr ardd wyllt. Diolch i Mrs Howard am drefnu.

Daeth y Parch Presdee atom i gynnal gwasanaeth y Pasg gan drosglwyddo neges hyfryd i ni am wir ystyr yr wyl mewn ffordd weledol – diolch yn fawr.

Bu holl ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn gwyllo perfformiad gan Theatr Bypedau Cymru o Fferm Ffal di Ral – a chael cryn fwynhad.

Llongyfarchiadau mawr i Cerys Angharad Jones disgybl ym mlwyddyn 5 sydd wedi cael ei derbyn yn aelod o Gôr Only kids Aloud. Mae wedi bod yn flwyddyn hynod o lwyddiannus i Cerys gan ei bod eisoes wedi ei derbyn fel aelod o gerddorfa ysgolion Prydain wrth ganu'r Delyn. Da iawn ti Cerys – rydym yn falch iawn ohonot.

Daeth cwmni 'Atebol' i'r ysgol i wneud cyflwyniadau i ddisgyblion blynyddoedd 4, 5, 6, a 7 ar apiau Cymraeg. Mae'r plant wedi bod wrthi'n brysur yn dysgu drwy chwarae a gwella eu sgiliau ieithyddol. Mae llond lle o rieni wedi bod yn dod i'r ysgol ar nos Fawrth a nos Iau i ddysgu Cymraeg sy'n galonogol tu hwnt. Os oes diddordeb gennych i ymuno â'r grŵp, yna mae croeso i chi – cysylltwch â'r ysgol.



Aeron Jenkins, Ymddiriedolwr Cronfa Ymddiriedolaeth NFU Ceredigion yn cyflwyno £300 yr un i bedair disgybl Ysgol Bro Pedr sef, o'r chwith, Rebeca James, Ffion Jenkins, Elan Jones a Mirain Richards (absennol o'r llun). Maent oll yn byw o fewn ffiniau Ceredigion ac wedi mynd ymlaen i astudio pynciau sy'n ymwneud ag amaethyddiaeth yn y Brifysgol. Cyflwynwyd y sieciau iddynt yn Noson Wobrwyo'r ysgol yn ddiweddar.



Da iawn i bawb o Ysgol Bro Pedr a fu'n rhedeg yng nghystadlaeth Trawsgwlad y sir a llongyfarchiadau arbennig i Liam Regan ar ddod yn ail (bechgyn bl.5), Ellie Maie ar ddod yn 4ydd (merched bl.4) Leah Regan yn 6ed (merched bl.6) a Jake Lewis yn 10fed (bechgyn bl.3).



Llongyfarchiadau i dîm pêl-droed Ysgol Bro Pedr ar gyrraedd y rownd gyn-derfynol yng nghystadlaeth Sirol yr Urdd wedi iddynt ennill pob gêm yn y grŵp. Diolch i Mr John am eu hyfforddi.



Pencampwyr Rygbi 7 bob ochr Ceredigion Dan 18 2018 (absennol o'r llun: Daniel Evans)



Gwnaeth merched Ysgol Bro Pedr yn arbennig o dda yng nghystadlaeth pêl-droed yr Urdd yn ddiweddar a diolch i Mr Davies am eu hyfforddi. Daliwch ati.



Cegin Gareth
Goedwig
Llanbedr P.S.
SA48 7JP
01570 422 313

*Blodau
Cacennau
Dathliadau
Partion*

Enw: **Ben Lake**

Oed: 25

Tref: Llambled

Gwaith: Aelod Seneddol Ceredigion

Partner: Sengl

Teulu: Mam, Dad a Cari fy chwaer.

Unrhyw hoff atgof plentyndod.

Mynd i chwarae yn y nant ger tŷ David Heath ym Mhontfaen.

Y peth pwysicaf a ddysgest yn blentyn.

I fod yn gwrtais gyda phawb ac i beidio ag anghofio fy ngwreiddiau.

Taset ti'n gallu mynd nôl mewn amser, beth fyddet ti'n dweud wrth dy hun yn 16 oed?

Ro'n i'n dueddol o boeni am bob dim pan o'n i'n iau, felly bydden i'n bendant yn dweud wrth fy hunan i fecso llai am bopeth.

Pan oeddet yn blentyn, beth oeddet eisiau bod ar ôl tyfu?

Plismon, fel fy nhad, neu diplomat.

Beth oedd y peth ofnadwy wnest ti i gael row gan rywun?

Fi'n cofio cael tipyn o row ar ôl i fi gloi Cari, fy chwaer, yn y sied ac yna colli'r allweddi!

Pryd a ble wyt ti mwyaf hapus?

Gyda ffrindiau yn cymdeithasu ac yn gwyllo Llambled yn chwarae rygbi.

I ba gymeriad enwog wyt ti'n debyg?

Mae ambell un wedi dweud wrtha i mod i'n debyg i Tin Tin.

Pwy yw dy arwyr?

Y bobl hynny sy'n gweithio'n ddiflino ac yn rhoi eu holl egni er lles cymunedau Ceredigion.

Beth yw dy arbenigedd?

Bydd hwn ddim yn syndod i neb – clebran!

Beth yw'r peth gorau am dy swydd bresennol?

Cael cwrdd â chynifer o gymeriadau Ceredigion.

Beth yw'r peth gwaethaf am dy swydd bresennol?

Y teithio yn ôl ac ymlaen i Lundain bob wythnos.

Y peth gorau am yr ardal hon?

Y bobl a'r gymuned glos.

Pa iaith wyt ti'n defnyddio gyntaf?

Cymraeg.

Pa fath o ddeddf hoffet ti weld y Cynulliad yn ei phasio?

Deddf a fyddai'n sicrhau bod unrhyw wariant neu fuddsoddiad



yn cael ei wasgaru'n deg ar draws y wlad.

Pryd est ti'n grac ddiwethaf?

Wythnos diwethaf yn Nhŷ'r Cyffredin.

Beth oedd y celwydd diwethaf i ti ddweud?

Dwi'n aelod o'r Pwyllgor Materion Cymreig ac mewn cyfarfod diweddar pan oedden nhw'n cynllunio ymweliad posib â Cheredigion, fe ddwedais i bod cyrraedd Ceredigion o Lundain yn hawdd!

Beth oedd yr eiliad balchaf i ti'n broffesiynol?

Fy araith forwynol fel Aelod Seneddol Ceredigion.

Ac yn bersonol?

Graddio o Rydychen.

Wyt ti'n dyfaru rhywbeth?

Ydw, dwi'n dyfaru peidio chwarae mwy o rygbi pan o'dd y cyfle 'da fi.

Beth yw dy gyfrinach i gadw'n bert?

Yn anffodus does gen i ddim – ond bydden i'n ddiolchgar iawn pe bae unrhyw un o ddarllenwyr Clonc yn medru anfon tips i fi ar sut i beidio colli gwallt!

Beth yw dy gyfrinach i gadw'n heini?

Dwi'n cerdded o leiaf 5 milltir bob dydd yn San Steffan a dwi

hefyd wedi cymryd rhan mewn dwy sialens gerdded eleni, sef Her Pumlumon 2018 a her C.Ff.I. Ceredigion i gerdded llwybr yr arfordir i godi arian i Uned Cemotherapi Bronglais.

Beth yw'r cyngor gorau a roddwyd i ti?

I ddyfalbarhau – dyfal donc a dyr y garreg.

Yr eiliad a newidiodd dy fywyd.

Cael fy ethol yn Aelod Seneddol mis Mehefin y llynedd.

Disgrifia dy hun mewn tri gair.

Cardi i'r carn.

Pa gar wyt ti'n gyrru?

Seat Ibiza.

Beth yw'r cludfwyd o'th ddewis?

Indian.

Beth wyt ti'n ei ddarllen?

Papurau briffio Pwyllgor Materion Cymreig.

Sawl tecst y dydd wyt ti hala?

Llawer gormod!

Pwy yw'r person enwocaf ar dy ffôn symudol?

Llywydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru – Elin Jones.

Oes yna rywbeth na elli di ei wneud y byddet ti'n hoffi ei gyflawni'n dda?

Siarad mwy o ieithoedd.

Beth sy'n rhoi ysbrydoliaeth i ti?

Pobl ifanc Ceredigion sy'n dangos mentergarwch ac yn mentro er mwyn creu bywoliaeth a sicrhau bywyd gwell yn ein sir.

Ar beth y gwnest orwario arno fwyaf?

Rownd o ddiodydd yn Llundain!

Pa beth wyt ti'n ei drysori fwyaf?

Teulu a ffrindiau.

Pa dair gwlad yr hoffet fynd iddyn nhw cyn marw?

Unol Daleithiau America, Siapan a Seland Newydd.

Pa dri pheth yr hoffet ti wneud cyn dy fod yn ddeugain?

Gweld Cymru'n ennill Cwpan Rygbi'r Byd; Pasio mesur yn San Steffan fyddai'n helpu trigolion Ceredigion; Chwarae gêm arall i Glwb Rygbi Llambled.

Unrhyw dalentau cudd?

Cymhwyster Deifio Scwba.

Beth yw'r peth diwethaf wyt ti'n 'neud cyn mynd i'r gwely?

Darllen papur briffio – roc a rôl!

Ble fyddi di mewn deng mlynedd? Ceredigion.

Testun Cyfrinachau'r rhifyn nesaf:

Lowri Pugh, Llangybi.

Clwb Clonc

Mai

£25 rhif 10:

Jen Cairns,

Llygad yr Haul, Llangybi.

£20 rhif 2:

Tom Bowen,

Pwllglas, Llanllwni.

£15 rhif 94:

Mrs Rosemary Davies,

Brynteg, Heol-y-Wig, Llambled.

£10 rhif 293:

Mrs Gwen Jones,

Gellidewi Uchaf, Cwmann.

£10 rhif 298:

Ros Jones,

Glanteifi, Stryd Newydd,

Llambled.

£10 rhif 99:

Megan Llwyd Davies,

Ger-y-nant, Drefach.

£5 rhif 73:

Lowri Davies,

Yr Encil, Cysgod-y-Coed,

Cwmann.



Y ras gyntaf a drefnir gan glwb Sarn Helen bob blwyddyn yw ras heol 10 milltir Teifi sy'n cychwyn a gorffen yn Llambod ac yn pasio trwy Llanfair a Cellan. Eleni, cynhaliwyd y ras ar 1 Ebrill gyda 33 o redwyr y clwb ymhlith y 112 o redwyr oedd yn cystadlu. Yr enillydd oedd Rob Johnson o Glwb Athletau Aberystwyth mewn 56 munud a 40 eiliad, prin 15 eiliad o flaen Dylan Lewis o glwb Sarn Helen. Wendy Price o Gaerfyrddin oedd y fenyw gyntaf (66 munud 17 eiliad) gyda Clara Davies o glwb Dyffryn Aman yn dilyn ychydig o flaen Dee Jolly o glwb Sarn Helen - hithau yn 1af yn nosbarth dan 35 oed y menywod mewn amser arbennig o 67 munud a 50 eiliad, ei hamser gorau hi dros ddeg milltir. Cafwyd nifer o berfformiadau neilltuoel o dda gan aelodau'r clwb - Ken Caulkett (8fed mewn 60.01) Andrew Poole (12fed mewn 62.04) a Simon Hall (14eg mewn 62.57). Cafwyd record bersonol gan Mark Rivers hefyd (18fed mewn 65.07) ac yn dynn ar ei sodlau roedd Llewelyn Lloyd (65.33) Carwyn Davies (65.35) Michael Davies (65.45) Tomos Morgans (record bersonol o 66.09) ac Aled Siôn Jones (66.24). Llwyddodd rhai eraill hefyd o redwyr y clwb i drechu 70 munud - Nigel Davies (66.45) Glyn Price (67.13) George Eadon (record bersonol o 68.30) Thomas Willoughby (69.18) a Steven Holmes (69.42). Ymhlith y menywod daeth Dawn Kenwright yn ail dros 45 oed (78.39). Enillodd perfformiadau Dee Jolly, Dawn Kenwright, Eleri Rivers (79.42) a Pam Carter (86.41) wobwr tîm y menywod i'r clwb. Aeth gwobr tîm y dynion i'r clwb hefyd.

Cynhaliwyd ras heol 10 cilometr Abergwaun ar 8 Ebrill i gefnogi'r Sefydliad Badau Achub. Daeth Ken Caulkett yn 3ydd mewn 35 munud a 59 eiliad ac enillodd ei gyd-aelod Dawn Kenwright y dosbarth i fenywod dros 55 mewn 47 munud a 48 eiliad. Y diwrnod cyn hynny, aeth tri o redwyr y clwb i gynrychioli Gorllewin Cymru yn ras fynydd Pen y Fal ('Sugarloaf') ger y Fenni. Gwnaeth Dee Jolly yn ardderchog i ddod yn 3ydd yn ras y menywod mewn 64 munud a 13 eiliad. Daeth Carwyn Davies yn 57fed a Mitchell Readwin yn 96ain.

Fe gollwyd ambell i ras i'r tywydd eithafol a gafwyd yn ystod mis Mawrth ond fe lwyddwyd i gynnal ras fynydd Yr Aran ger y Bala yn yr eira a'r oerfel. Cafodd Dylan Lewis ei wobrwyo am ei ymdrech wrth iddo ddod yn gyntaf mewn 43 munud a 38 eiliad gyda Felipe Jones yn 3ydd, Daniel Hooper yn 11eg a Simon Hall yn 14eg. Nid y dynion yn unig oedd yn barod i herio'r elfennau gan i Dee Jolly ddod yn ail ymhlith y menywod (53.11) ac yn gyntaf yn y dosbarth dan 35 oed.

Er gwaetha'r tywydd daeth nifer o aelodau'r clwb o hyd i ras mewn amryw leoliadau yn ystod mis



Louise Jenkins a Heulwen James yn Ras 10 Teifi.

Mawrth - Carwyn Davies yn rhedeg hanner marathon Merthyr mewn 1 awr 27 munud, David Thomas a Terry Wyn Jones yn rhedeg yr un pellter yn Llundain mewn rasys gwahanol a Graham Penn yn gwneud hynny yn Hastings.



Roedd George Eadon yn un o'r 5000 a redodd ras 10 cilometr Bae Caerdydd gan orffen mewn 41 munud ac 1 eiliad ychydig o flaen ei gyd-aelod Martin Darby. Ar yr un diwrnod trefnwyd ras feicio a rhedeg gan Gampau Caron yn Nhregaron ac aeth nifer o aelodau'r clwb yno gan gynnwys yr enillydd Andrew Poole.

Ar wahân i Gemau'r Gymanwlad yn Awstralia, mae'n debyg mai Marathon Llundain ar 22 Ebrill oedd y prif ddigwyddiad yn y byd athletau yn ystod y mis diwethaf. Roedd rhai o redwyr Sarn Helen yn cystadlu yno eleni eto. Eleni oedd y ras boethaf o ran tymheredd ers sefydlu'r ras hon yn 1981 ac felly llongyfarchiadau i Ken Caulkett (3 awr 9 munud a 51 eiliad) Nigel Davies (3-24-29) Martin Darby (4-54-51) Jenny Caulkett (4-41-25) ac i Emma Gray (6-43-15) ar eu hymdrechion llwyddiannus i orchfygu'r amgylchiadau.

Merched y Wawr



Swyddogion Merched y Wawr Rhanbarth Ceredigion Olwen Jones a Jackie Edwards (cyd-ysgrifenyddion), Enid Evans (Llywydd) a Sandra Lake (Ysgrifennydd) yn cyflwyno rhodd i Elizabeth Evans ar achlysur ei hymddeoliad fel Swyddog Datblygu Ceredigion. Diolch iddi am ei hymrwymiad a'i chymwynas barod dros gyfnod o 14 o flynyddoedd.



Dylan Lewis enillydd Ras yr Aran.

Swdocw

Sut i chwarae - Rhaid i chi gwblhau'r grid gyda phob colofn, pob rhes a phob bocs yn cynnwys y rhifau 1-9

Enw

Cyfeiriad

Cod post

Rhif Ffôn

Atebion i: Tŷ Cerrig, Cwmann, SA48 8ET
Gwobr: Pecyn Nwyddau Clonc
I'r ateb cywir cyntaf allan o'r het.

			4	5		3	7
7		5					8
	2			8	1		4
		7				9	
			9	3		2	
6						5	1
4							
3	8			9	4		

Swdocw Ebrill:

Llongyfarchiadau i:
Bethan Williams,
Neuadd Fryn,
Llanybydder, a diolch
i'r ddau arall am
gystadlu hefyd: Joan
Stacey, Tynwaun,
Ffaldybrenin a
Richard Evans,
Godre'r Coed,
Olmarch.

9	8	6	2	7	1	5	4	3
3	4	2	5	9	8	1	6	7
1	7	5	3	6	4	9	2	8
5	3	9	1	8	6	2	7	4
4	2	8	7	5	3	6	1	9
7	6	1	4	2	9	3	8	5
8	5	4	6	3	2	7	9	1
6	9	7	8	1	5	4	3	2
2	1	3	9	4	7	8	5	6

Ceredigion

Cynhaliwyd Siarad Cyhoeddus C.Ff.I. Cymru ar ddydd Sadwrn 24 Mawrth ar Faes y Sioe Frenhinol, Llanellwedd lle bu nifer fawr o aelodau C.Ff.I. Ceredigion yn cystadlu. Daeth llwyddiant gydol y dydd gyda Cheredigion yn gorffen yn y 3ydd safle yn yr adran Gymraeg. Dyma'r canlyniadau: Darllen Cymraeg dan 14oed – 2il; Darllen Saesneg dan 14oed – 3ydd; Adran Iau Cymraeg – 3ydd; Adran Ganol Cymraeg – 1af gyda Meleri Morgan, Llangeitho yn ennill y Siaradwr Gorau; Adran Ganol Saesneg – 2il; Adran Hŷn Cymraeg – 1af gydag Endaf Griffiths, Pontsian yn ennill y Siaradwr Gorau; Adran Hŷn Saesneg – 3ydd; Ymgeisio am swydd – 2il Lowri Jones, Lledrod.



Endaf Griffiths, Pontsian

Cynhaliwyd Cwis Iau y Sir i aelodau dan 18oed mewn dau leoliad sef Neuadd Pontsian a Neuadd Tregaron. Daeth cynrychiolaeth gref o glybiau'r Sir a caredm ddiolch i Milwyn Davies, Is-lywydd y Sir am baratoi'r cwis. Cyhoeddwyd Felinfach yn 1af a Llanddeiniol a Llanwenog yn gydradd 2il ym Mhwyllgor Gwaith mis Ebrill.

Ar ddechrau mis Ebrill, cymerodd dros 170 o aelodau ran yn Sialens y Cadeirydd i gerdded yr arfordir. Rhannwyd y Sir yn ddwy ran gyda un grŵp yn dechrau yn Ynyslas a'r ail grŵp yn dechrau yn Aberteifi. Dechreuwyd y daith am 6.00y.b. ac roedd yn sialens fwy anodd nag arfer gan fod y tywydd yn ein herbyn a'r llwybrau yn llithrig. Roedd yr arian yn mynd tuag at Uned Newydd Cemotherapi, Ysbyty Bronglais a Mudiad C.Ff.I. yng Ngheredigion. Diwedd y daith oedd yng Nghlwb Rygbi Aberaeron gyda thyrfa o aelodau, arweinyddion a ffrindiau'r mudiad wedi ymgynnull.

Fel rhan o ymarferion tuag at Rali Felinfach 2018, mae'r Sir, ynghyd a'r pwyllgor materion gwledig wedi trefnu hyfforddiant barnu stoc. Rydym yn ffodus fod cefnogaeth gan y Mudiad a caredm ddiolch i Deulu Evans, Troedyaaur am gynnal yr hyfforddiant moch, i Deulu Davies, Fron, Pontsian am gynnal yr hyfforddiant Holsteins ac i deulu Green, Nantgwyn, Llanfair Clydogau am gynnal yr hyfforddiant Defaid Mynydd Duon Cymreig.

Cynhaliwyd Gala Nofio'r Sir ym Mhwl Nofio Aberaeron, Nos Wener 13 Ebrill a chafwyd tipyn o hwyl yn y pwll. Rhyddian Ellis Jones enillodd cwpan Alison Jones am y nofiwr cyflymaf gyda Chlwb Felinfach yn ennill cwpan Esgair Wen, Mydroilyn am y nifer o bwyntiau ar ddiwedd y noson. Llongyfarchiadau i bawb.

Wedi'r dihiryn o'r dwyrain fod yn rwystr ar ddechrau Mis Mawrth, ail gynhaliwyd y gystadleuaeth Pantomeim Cymraeg yn Theatr Brycheiniog, Aberhonddu ar ddydd Sul, 15 Ebrill. Perfformiodd Pontsian ei cynhyrchiad o 'Frankodeuwedd'. Derbyniodd Pontsian tipyn o lwyddiant gan ennill y perfformiad technegol gorau ynghyd ag ennill y gystadleuaeth yn ei chyfanrwydd. Cafodd sawl aelod ganmoliaeth fel actorion. Camp yn wir!

Cynhaliwyd Diwrnod Gwaith Maes C.Ff.I. Cymru ar ddydd Sadwrn, 21 Ebrill ar Faes y Sioe Amaethyddol yng Nghaerfyrddin. Bu cystadlu brwd drwy'r dydd a daeth Ceredigion i'r pumed safle ar ddiwedd y dydd. Dyma'r canlyniadau: C.Ff.I. Byw – Llanwenog – 1af; Ffensio Iau – Lledrod – 1af; Treialon Cŵn Defaid – Dewi Jenkins, Talybont – 2il; Stocmon Hŷn – 2il (Y tîm oedd Fflur Davies, Delyth Jones, Rebecca Reed a Dyfrig Williams).

Enillwyr Clwb 200 - Mis Ebrill: 1af – Alan Morgan, Llwynbedw, Falcondale Drive, Llambod; 2il – Arwyn a Heledd Williams, Llys y Gan, Derwen Gam; 3ydd – Ann Lloyd-Thomas, Llwynderw Fach, Llanarth.

CCB Ff.C.Ff.I., Blackpool: Pob lwc i Cennydd Jones, Aelod Hŷn y Sir a fydd yn cystadlu yng nghystadleuaeth Aelod Hŷn Ff.C.Ff.I. ym mhenwythnos y Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol ar ddechrau Mis Mai.

Dyddiadau i'ch dyddiadur: 4-7 Mai: CCB Ff.C.Ff.I., Blackpool; 9 Mai: Cyfarfod Diwrnod allan ar y Fferm, Tafarn Dyffryn Aeron, 7.30 y.h.; 12 Mai: Chwaraeon y Sir; 16 Mai: Pwyllgor Gwaith; 19 Mai: Saethu Colomennod Clai, Lledrod; 2 Mehefin: Rali'r Sir, Sychpant, Talsarn; 20 Mehefin: Pwyllgor Gwaith.

Sir Gâr

Bu cystadlu brwd trwy gydol diwrnod Gwaith Maes y Sir a gynhaliwyd ym Maes y Sioe, Nantyci ar Ddydd Sadwrn, 7 Ebrill 2018.

Caryl Howells, C.Ff.I. Llangadog enillodd teitl Stocmon Hŷn y Flwyddyn gydag Anwen Jones, C.Ff.I. Llanllwni yn ail, Arwel Thomas, C.Ff.I. San Clêr



Caryl Howells, Arwel Thomas, Elin Childs a Anwen Jones – Enillwyr Stocmon Hŷn y flwyddyn.

yn drydydd, ac Elin Childs, C.Ff.I. Llanfynydd yn bedwaredd. Yn Stocmon Iau y Flwyddyn, Nia Thomas, C.Ff.I. San Ishmael ddaeth i'r brig gyda Tomos Griffiths, C.Ff.I. San Ishmael yn ail, Siriol Richards, C.Ff.I. Llandeilo yn drydydd, ac Iwan Thomas, hefyd o C.Ff.I. San Ishmael yn bedwaredd. Bydd yr wyth yn mynd ymlaen i gynrychioli Sir Gâr ar lefel Cymru.

Bechgyn C.Ff.I. Llanllwni sef Hefin Jones, Siôn Evans ac Arwel Jones gipiodd y wobwr gyntaf yn y gystadleuaeth Codi Ffens Adran Hŷn. C.Ff.I. Llanddarog gipiodd y wobwr gyntaf yn y gystadleuaeth Codi Ffens Adran Iau sef Gethin Davies, Dafydd Edwards a Harri Ward. Pob lwc i'r ddau dîm ar lefel Cymru.

Ioan Hughes ac Aled Thomas, C.Ff.I. Llangadog enillodd y gystadleuaeth Fferm Ffactor.

Hefin Jones, Arwel Jones, Aled Jones a Catrin Evans, C.Ff.I. Llanllwni ddaeth i'r brig yn y gystadleuaeth Sgiliau Gweithdy. Logan Williams, C.Ff.I. Llandeilo enillodd y gystadleuaeth Treialon Cŵn Defaid. Gwenann Jones, Heledd Jones, Cerys Thomas a Lowri Davies gipiodd y wobwr gyntaf yng nghystadleuaeth C.Ff.I. Byw. Bydd yr aelodau yma yn mynd ymlaen i gynrychioli'r Sir ar lefel Cymru.

Yn y gystadleuaeth saethu clai, Rhys Evans, C.Ff.I. San Clêr ddaeth i'r brig yn yr adran Iau; Martha Sauro, C.Ff.I. Llanelli a Carwen Richards, C.Ff.I. Dyffryn Cothi ddaeth yn gydradd gyntaf yn yr adran hŷn i ferched; a Cennydd Howell, C.Ff.I. Llanfynydd gipiodd y wobwr gyntaf yn yr adran hŷn i fechgyn. Hefin Jones, C.Ff.I. Llanllwni ddaeth yn gyntaf yn y gystadleuaeth 'Mood Board' Peiriant Breuddwyd. Bydd yr aelodau yma yn cynrychioli Sir Gâr ar lefel genedlaethol.

Diolch i bawb a wnaeth helpu gyda'r stiwardio ac hefyd i'r unigolion wnaeth rhoi benthyg eu 'Horseboxes' i ni. Diolch hefyd i Euros Jones, Clive Breeze, Eifion Jones ac i Adrian a Myfanwy Roberts am gael defnyddio eu stoc i'r Stocmon.

Ar Ddydd Sadwrn, 21 Ebrill cynhaliwyd diwrnod Gwaith Maes C.Ff.I. Cymru gyda C.Ff.I. Sir Gaerfyrddin yn gwsteio'r digwyddiad ym Maes Y Sioe, Nantyci. Ar ôl diwrnod llwyddiannus o gystadlu, daeth y Sir yn gydradd ail dros Gymru.

Yng nghystadleuaeth Stocmon Hŷn y Flwyddyn, Caryl Howells, C.Ff.I. Llangadog ddaeth i'r brig gydag Elin Childs, C.Ff.I. Llanfynydd yn ail, ac Anwen Jones, C.Ff.I. Llanllwni yn drydydd. Sir Gâr ddaeth yn gyntaf yn y gystadleuaeth gyfan.

Llwyddiant arall i'r Sir oedd y gystadleuaeth Treialon Cŵn Defaid lle gipiodd Logan Williams, C.Ff.I. Llandeilo y wobwr gyntaf. Aelodau o C.Ff.I. Llanllwni sef Hefin Jones, Arwel Jones, Aled Jones a Catrin Evans enillodd y Sgiliau Gweithdy dros Gymru.

Yn y gystadleuaeth C.Ff.I. Byw, daeth Gwenann Jones, Heledd Jones, Cerys Thomas a Lowri Davies yn yr ail safle.

Da iawn i Ioan Hughes ac Aled Thomas, C.Ff.I. Llangadog am gystadlu yn y gystadleuaeth Fferm Ffactor Iau; i Gethin Davies, Dafydd Edwards a Harri Ward, C.Ff.I. Llanddarog am gystadlu yn y gystadleuaeth Codi Ffens Iau; ac i Nia Thomas, Tomos Griffiths ac Iwan Thomas, C.Ff.I. San Ishmael a Siriol Richards, C.Ff.I. Llandeilo am gystadlu yng nghystadleuaeth Beirniadu Stoc Iau.

Diolch yn fawr iawn i bawb a wnaeth stiwardio ar y dydd, i'r holl unigolion ddaeth a'i 'Horseboxes' ac i Owen Davies, Lloyd ac Eiddwen Howells, Euros Jones a Brian Walters a'r teulu am fod mor barod i roi eu stoc ar gyfer y gystadleuaeth Stocmon.

Plymio a Gwresogi
DANIEL DOUGHTY
Plumbing & Heating Services

Gas/LPG & Oil Services

Renewables • Installation
Maintenance • Breakdowns
Boiler Servicing • Sprinklers

07969 289679
d.doughtyplumbing@gmail.com



Gwasanaethau Coed Teifi
Tree Services



Pob math o waith ar goed
Torri cloddiau • Plygu cloddiau
Wedi yswirio'n llawn
Dyfynbris am ddim
Coed tân ar werth

Lyn Davies
01239 851001 / 07796 682448



01570 480 108

07811 701 857

office@ejonesplumbingandheatingltd.co.uk

Gwesty'r
Grannell
Hotel
Bar & Restaurant

Llanwnnen, Llambod
Ffôn: 01570 480476

Bwyd
Diod
Ystafell i gynnal digwyddiad
Ystafelloedd gwely

PHILIP JONES
FINANCIAL SOLUTIONS
Agricultural, Construction and Business Finance

Cyllid Amaethyddol, Adeiladu
& Busnes • Offer Amaethyddol
ac Adeiladu • Ceir a Cherbydau
Masnachol • Cyfleusterau
Amddiffiniad Offer Newydd a
Ddefnyddir

Rheolwr Ardal: Bedwyr Davies
07757 668339 / 01544 340562
bedwyr@pjfinancialsolutions.co.uk
www.pjfinancialsolutions.co.uk

Authorised and regulated by the
Financial Conduct Authority No FRN 690293

Llanwnnen

Dathlu pen-blwydd arbennig



Dathlodd Caradog Jones, Caernarfon ei ben-blwydd yn 90 oed yn ddiweddar a chafodd barti arbennig gyda digon o gyfle i hel atgofion. Maesllan, Llanwnnen oedd ei gartref ar un adeg a chyn hynny, roedd yn byw yn Llwynhelig, Alltyblaca. Beili dŵr ydoedd yn ôl ei alwedigaeth ond roedd hefyd yn mwynhau ffermio. Llongyfarchiadau calonnog i chi, Caradog, a gobeithio y cewch iechyd a hapusrwydd am flynyddoedd i ddod.

Cydymdeimlo

Yn ddiweddar, clywyd am farwolaeth John Evans, Glynteg yn Ysbyty Glangwili. Priod y diweddar Glenda a thad Nigel a Dawn. Bu'r angladd yn Amlwgfa Aberystwyth. Derbyniwch ein cydymdeimlad dwysaf.

Tyrbin gwynt cymunedol newydd

Mae Egni Cymunedol Grannell wedi cyhoeddi cynlluniau i ariannu tyrbin gwynt 50 medr o uchder mewn digwyddiad ar nos Fawrth, 10 Ebrill 2018 a gynhaliwyd yng Ngwesty'r Grannell yn Llanwnnen, gyda Ben Lake, AS Ceredigion yn westai arbennig.

Mae gan Egni Cymunedol Grannell gynlluniau i osod tyrbin gwynt Enercon 500kW fydd yn 50 metr o uchder gyda llafn 48 metr o hyd, ar Fferm Ffrwd, Cribyn. Bydd y gwaith yn dechrau dros yr wythnosau nesaf. Bydd y tyrbin gwynt yn cynhyrchu tua 1700 MWh o drydan y flwyddyn - yn ddigon ar gyfer tua 450 o gartrefi.

Dywedodd Elly Foster, Cadeirydd Egni Cymunedol Grannell: "Roedd yn noson ddiddorol iawn gyda nifer



Yng Ngwesty'r Grannell yn ddiweddar, dangoswyd planiau i godi melin-wynt yng nghyffiniau Llambod. Egni Cymunedol Grannell sydd y tu ôl i'r fenter o godi'r felin-wynt ar dir fferm Ffrwd, ger Cribyn. Bydd yn hanner can medr o uchder a bydd yn medru cynhyrchu digon o drydan i tua 450 o dai. Bydd yr elw a wneir yn dod yn ôl i'r gymuned i'w ddosbarthu i helpu a chynorthwyo anghenion a mudiadau lleol. Yn bresennol yn y cyfarfod oedd ein Aelod Seneddol Ben Lake.



Cyflwynwyd Cwpan yr Arddangoswr Defaid Gorau yng Ngheredigion i Teulu Tynllyn, Llanwnnen - Geraint a Kim Williams, Rhys a Nia - gan noddwr y gystadleuaeth David Scourfield, Greenlands Insurance, Aberystwyth mewn cinio diweddar yn Sgubor Teile.

o aelodau'r gymuned wedi ymuno â ni i glywed mwy am y prosiect a sut y gallant fod yn rhan ohono. Mae'n galonogol iawn i weld cymaint o bobl â diddordeb yn y prosiect sydd yn dangos bod yna awydd am ynni adnewyddadwy a gwella'r amgylchedd yn yr ardal hon."

Mae'r prosiect ynni cymunedol lleol yn cynnig cyfle i bobl leol fuddsoddi arian am gyfranddaliad o'r tyrbin gwynt. Fel cyfranddaliwr ac aelod o'r prosiect, bydd aelodau yn derbyn llog ar eu cyfranddaliadau, a hefyd yn cael penderfynu sut y bydd cronfa arian leol yn cael ei ddefnyddio er budd y

gymuned leol.

Fel cymhelliad i bobl leol sydd yn byw gerllaw'r tyrbin gwynt ac yn byw o fewn y cod post SA48 gallwch gynnig fuddsoddi cyn lleied â £100 yn y prosiect. I'r rheiny sydd yn byw tu allan i'r cod post, bydd rhaid buddsoddi £250. Rhagwelir llog blyneddol o tua 5% ar gyfartaledd i aelodau dros gyfnod o 20 mlynedd. Cyfanswm y targed codi arian i'r cynnig siâr hwn ar gyfer y tyrbin yw £700,000.

Am ragor o wybodaeth am leoliadau ac amseroedd, ewch i'r wefan www.grannellcoop.org.uk.

£12
yn unig

yw pris hysbysebu,
a dim ond
£72 am ddeg ohonynt.
ysgrifennydd@clonc.co.uk

Cofrestrwch ar ein
gwefan gymunedol

www.clonc360.cymru

er mwyn cyfrannu
eich stori chi.

Gofynnir am gyfraniad o

£5

yn unig os gwelwch yn
dda er mwyn rhoi neges
o ddiolch
ym Mhapur Bro Clonc.

Oes angen cyngor arnoch?
Mae gennym arbenigedd cyfreithiol
mewn sawl maes, megis:-

1. CYFRAITH TIR,
2. EWWYLLYSIAU A'U PROFIAINT,
3. TRETH ETIFEDDIAETH A
MODD I'W LEIHU,
4. GWAITH LLYS O BOB MATH.

Os hoffech fwy o wybodaeth
mae croeso i chwi gysylltu â ni.

ADVE

ARNOLD DAVIES VINCENT EVANS
CYFREITHWYR

33 Stryd Fawr, Llanbed
☎ 01570 422517 ☎ 01570 423244

Carpedi

Gwyn Lewis
Cyf

Cyflenwi a gosod:
Carpedi a Feinyl, Lloriau Diogel,
Cladinau Wal,
yn ogystal â Gwelyau,
Pennau Gwelyau a Rygiau.

43 Stryd y Bont
LLANBEDR PONT STEFFAN
Ffôn a Ffacs: 01570 423984
Adref: 01570 423349

TEIARS
HUW LEWIS

TYRES

TEIARS
BREC
BATRIS
GWACAWYR

HUWLEWISTYRES.COM
LLANBEDR PONT STEFFAN
01570 422221

Tim Jones



Ffotograffydd

Llainwen, Rhodfa Glynhebog
Llanbedr Pont Steffan
☎ 01570 422644

Mwnci ffwnici



Brodweithio
a Phrintio Dillad.
Darparu
Dillad Gwaith
a Hamdden.

Sioned Green
a **Mared Jones**
Nantgwyn,
Heol Llanfair
Llanbed

☎ 01570 423135
☎ 07811917799 /
07968821035
✉ mwnciffwnici@hotmail.com

MIS y PAPUR NEWYDD

Colofn Dylan Iorwerth

Y rhod yn dal i droi

Mae hi wedi dod eto, diolch byth. Mae clywed y gog, rhywsut, yn dangos fod rhai pethau o hyd fel y dylen nhw fod. Nad ydi'r byd i gyd wedi mynd yn bedyll.

Mae yna ddau neu dri o lefydd ar y brynau o gwmpas ein hardal ni lle gallwch chi fod yn weddol sicr o'i chlywed hi, ar ddiwrnod heulog heb ormod o wynt.

Efo lwc, efallai y cewch chi ei gweld hi, yn gwibio'n isel tros y grug, yn chwarae mig efo'i chymar, neu hyd yn oed yn cael ei hymlid gan aderyn llai.

Efo lwc, achos, prinhaus y mae'r gog a lleihau y mae nifer y mannau lle y gallwch chi ei chlywed hi, heb sôn am ei gweld. Ein lwc ni ydi fod brynau Dyffryn Teifi yn un o'r mannau hynny.

Mi ddaeth hi eleni cyn i'r coed ddeilio a chyn i'r hin gynhesu. O ystyried y tywydd, allech chi ddim â beio byd natur am bwdu a gwrthod gwneud ei waith.

Ond mae'r canghennau wedi tewychu â blagur a'r ffawydd wedi dechrau dangos hem fach o wyrdd. Yn sydyn, mi wynnodd y ddraenen ddu ac mi ddechreuodd ambell gloch las ymddangos mewn lle cynnau mwy heulog.

Mae cyflymder y newid yn syfrdanol, fel petai rhyw gonsuriwr wedi cuddi hances sidan yn ei law, cyn agor ei ddwrn er mwyn i'r defnydd llamu allan yn un ffair o liwiau.

Trysorau dan ein traed

Y diwrnod o'r blaen, mi fethon ni â chlywed y gwcw; dim sôn amdani yn unman. Ond, ar y ffordd gartre'n siomedig, roedd yna ryfeddod arall, ysgyfarnog hirgoes yn llamu o flaen y car a'i arwain rhwng y cloddiau.

Os oedd sgwarnog yn fwyd parod i bobol ddi-fodd erstalwm, mae hithau'n ddieithr heddiw. Mae'n gofyn am ehangder agored o dir a rhywfaint o lonydd ac mae'r pethau hynny'n ddychrynlyd o brin.

Mae'r sgwarnog i'w gweld yng nghyffiniau'r gors yn Gorsgoch hefyd, lle arall sy'n llawn trysorau – trysorau nad ydi'r rhan fwyaf ohonon ni yn gwybod eu bod nhw yno.

Sawl tro y gwnaethon ni yrru hyd y ffordd o Gwrtnewydd a'r llyn am y clawdd â ni, heb wybod mai dyna un o'r ychydig lefydd yng Ngheredigion – os nad yr unig un – lle mae'r wylan benddu'n nythu. Maen nhw yno ar hyn o bryd.

Mi ddaw elyrch yno hefyd ac ambell gwyach fach – mae'r enwau hyd yn oed yn ddieithr erbyn hyn. Ac, wrth reswm, mi ddaw crychyd yn hedfan yn drwm ac isel fel un o'r hen awyrennau cargo mawr yna sy'n rhygnu heibio weithiau.

Do'n i ddim yn nabod cân y troellwr bach, ond mae o yno ar y gors. Swn fel ceiliog rhedyn mawr a'r sain yn chwarae triciau arnoch chi, fel petai'n symud tros wyneb y fawnog sigledig.

Yr addysg ydi bod ar y gors efo rhywun sy'n deall, yn nabod cân aderyn wrth glywed dim ond nodyn ac yn gwybod beth ydi planhigyn wrth weld dim ond deilen grin. A'r deall dyfnach wedyn ... gallu gwybod beth sydd o dan y pridd o weld beth sydd ar ei wyneb.

Mi edrychais i ar ddarn o'r fawnog a gweld dim ond chydig fwsog a brwyn; mi edrychodd Jon Turner o Gyfoeth Naturiol Cymru ar yr un llathen sgwâr a gweld crugyn o rywogaethau gwahanol. Nid un math o frwyn ond pedwar.

Nid dim ond dyfnder daear chwaith, ond dyfnder hanes hefyd. Mae yna ambell i godiad tir ar gyrion y gors sy'n edrych fel petai hen glawdd wedi bod yno unwaith. Ond, i'r llygad cyfarwydd, mae'n arwydd mai dyma lle'r oedd y rhew yn dechrau a gorffen yn ystod Oes yr Iâ.

'Pingo' ydi'r enw ar ffurfiau o'r fath ac mae'n debyg mai'r rhan yma o Geredigion ydi un o'r llefydd gorau yng ngwledydd Prydain i'w gweld nhw. Ninnau'n gwybod dim ... er eu bod nhw'n pingo yma!

Weldio D & W Welding

01570481153 / 07915543823

Caerwenog,
Penffordd,
Llangybydder,
Ceredigion,
SA40 9XG

Darparu gatiâu a rheiliau
haearn ac hefyd eich holl
waith weldio ac atgyweirio

**WILLIAMS
& BOURNE**

CYFREITHWYR,
COMISIYNYR LLWON

Trosglwyddiadau a phob
gwasanaeth cyfreithiol.
Ymweliadau â'r cartref yn bosibl.

**1 Sgwâr Harford,
Llanbed**

☎ 01570 422206 ☎ 01570423540
a 4/5 Stryd y Bont, Llandysul

Oh My Cod

Siop Pysgod a Sglodion

**19 Stryd Fawr,
Llanbed**

Oriau Agor:
Mawrth - Sadwrn 12yp - 9yh
Sul - Llun - Ar Gau

Gwasanaethau Coed Llanbed



Gwêl-y-Coed, Cwmann
Llanbed, SA48 8EL
01570 422819

www.lampetertrees.co.uk

Cwmni teuluol all ddelio â
phob math o breblemau gyda choed.



Melin Mark Lane Mill
Llanbedr Pont Steffan
Ceredigion SA48 7AG
Tel: 01570 422540
Fax: 01570 423644
www.wdlewis.co.uk

Hefyd yn
Broneb Stores
Pumsaint, Llanwrda
Tel: 01558 650215



**COMPASS
OFFICE
SUPPLIES**

Am eich holl
ddeunydd swyddfa

Uned 12 Stâd Ddiwydiannol
Llanbed, Heol Tregaron,
Llanbed.

☎ 01570 422955
☎ 01570 422232

CANOLFAN ADDURNO

**AA
A**

Dewis arbennig o bapur, paent ac
offer i wneud addurno yn bleser.

Llyfrau Patrwm, Offer llaw a
phwerus, Polion a thraciau llenni,
gwasanaeth torri allwedd i
pheiriannau cymysgu paent
Dulux a Leyland.

Arbenigedd ar garreg eich drws.
3 Stryd y Bont
Llanbedr Pont Steffan
01570 423156

Llangybi a Betws

Ysgol Y Dderi

Croeso cynnes i'n plant bach newydd sef Gwyn, Catherine, Elliott ac Eleanor. Maen nhw wedi ymgartrefi'n hwylus iawn i fywyd a gwaith yr ysgol.

Bu rhai o ddisgyblion blwyddyn 5 a 6 yr ysgol yn cystadlu yn nhrnamaint pêl-droed yr Urdd ar gaeau Blaendolau yn ddiweddar. Llwyddodd y bechgyn i gyrraedd y chwarteri felly llongyfarchiadau mawr iddynt. Roedd pawb wedi mwynhau y profiad yn fawr.

Disgyblion y dosbarth derbyn, blwyddyn 1 a 2 sy'n dysgu nofio yn ystod y tymor yma. Maen nhw wrth eu boddau yn cael cyfle i ddysgu ac i wella eu sgiliau.

Bu nifer o ddisgyblion yn cystadlu yng nghystadlaethau traws-gwlad y Sir. Roedd pawb wedi rhedeg fel y gwynt gyda Rhydian ac Albie yn llwyddo i ennill y trydydd safle.

Roedd y tîm o ferched a fu'n cynrychioli'r ysgol yn nhrnamaint rygbi 7 bob-ochr i ferched yn ddiweddar wedi cael bore cyffrous yn Aberaeron. Ennill, colli a gemau cyfartal oedd eu hanes a phawb wedi rhoi o'u gorau glas.

Mae disgyblion blwyddyn 6 wedi bod yn mwynhau diwrnodau pontio yn Ysgol Bro Pedr er mwyn eu paratoi ar gyfer cychwyn blwyddyn 7 ym mis Medi. Daeth pawb nôl yn wên o glust i glust ac yn llawn brwdfrydedd am eu pennod nesaf yn yr ysgol uwchradd.

Hyfforddiant Diffibriliwr

Cynhelir hyfforddiant yng Nghapel Maesyffynnon, Llangybi ar 22 Mai, am 7:30 o'r gloch. Croeso cynnes i bawb sydd â diddordeb.

Hamdden

Trip dirgel a fu ar 6 Ebrill gyda ffrindiau yn ymuno a'r aelodau. Nid oedd y daith yn faith – dim ond i Ganolfan Denmark yn Betws Bledrws. Ychydig oedd wedi ymweld a'r lle er ei fod mewn bodolaeth ers 30 mlynedd. Bu Fferm Denmark ar un adeg yn perthyn i Ystâd y Dderi, dros can cyfer ac yn cyflogi dau was ffarm. Shraed Earth Trust sydd yn berchen y lle nawr ac yn gyfrifol am y 40 cyfer sydd ar ôl – aceri wedi ei gwerthu i ffermydd cyfagos. Cadwraeth, natur a hamddena yw prif nodweddion y Ganolfan. Erbyn hyn, maent yn cyflogi dau drefnydd llawn amser a rhan amser ac mae croeso i wirfoddolwyr bob amser.

Cafwyd cip olwg ar hanes a datblygiad y lle mewn ystafell ddosbarth a fu yn feudy. Roedd yr hen adeiladau wedi eu dymchwel neu trosglwyddo i uned modern fel chalets, swyddfa, gegin a rhai hollol newydd. Roedd modd mynd am dro o amgylch cyn cael te blasus a dychwelyd adref.

Rhodddwyd pleidlais o ddiolch gan



Llongyfarchiadau mawr i Tomi-Jac Regan o Olmarch am ddod i'r brig mewn cystadlaethau golff chwe twll yng Nghlwb Golff Ashburnham a Dinbych-y-Pysgod.

Llongyfarchiadau hefyd i'w frawd mawr Dion Teilo am ddod yn drydydd yng nghystadlaethau 18 twll o'r 'tees' gwyn yn Dinbych-y-Pysgod a chwaraeodd yn well na'i handicap o 16.

Dymunwn pob lwc i'r ddau sydd wedi llwyddo i fynd ymlaen i rownd gynderfynol trnamaint Wee Wonders a fydd yn cael ei gynnal yn Rhondda yn yr Haf.

Cyn bo hir, caiff Dion gyfle i gynrychioli'r Sir gydag ysgolion Dyfed a hwyrach yn y mis bydd yn teithio i'r Alban i gystadlu ym Mhencampwriaeth Ewropeaidd gyda 'Us Kids'! Haf prysur unwaith eto!

y Llywydd, Janet Farrow i bawb a wnaeth y prynhawn yn llwyddiannus ac yn enwedig i Sally Davies am drefnu'r trip. Roedd yna nifer wedi ennill y raffl.

Bydd y cyfarfod nesaf yn Ysgol y Dderi ar 4 Mai am 2:00 o'r gloch pan y disgwylir Sian Davies i sôn am ofal traed.

Merched y Wawr Y Dderi

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Llywydd Gwyneth Jones. Ein gwraig wadd oedd y Fon. Beti Griffiths a chafwyd noson ragorol yn ei chwmni. Bu yn sôn am atgofion o'i bro genedigol, y cymeriadau, ei phrofiad fel athrawes a phennaeth, a'r blynyddoedd a dreuliodd fel Ynad Heddwch. Talwyd y bleidlais o ddiolch iddi am noson ddifyr a diddorol ac am hanesion cefn gwlad gan Rita Jones.

Dymunwyd adferiad llwyr a buan i bob un o'r aelodau oedd yn sâl. Bu trafodaeth ar ble i ymweld ar ein trip blynyddol. I'r cyfarfod nesaf, fe fydd angen syniadau am siaradwyr go gyfer a blwyddyn 2018-2019. Rhoddwyd y raffl gan Mary Jones ac fe'i henillwyd gan Eleanor Evans. I ddiweddu'r cyfarfod, cafwyd lluniaeth ysgafn wedi ei roddi gan Deborah a Gwyneth Jones.

I'r cyfarfod nesaf, rydym yn disgwyl Y Fon. Eirwen James i'n hannerch.



Tîm pêl-droed merched Ysgol y Dderi.



Tîm pêl-droed bechgyn Ysgol y Dderi.



Rhedwyr trawsgwlad llwyddiannus Ysgol y Dderi Rhydian ac Albie.

LYN JONES
"At eich gwasanaeth"

- Torri porfa - o lawntiau bach i gaeau chwarae
- Symud celfi
- Unrhyw waith o gwmpas y tŷ a'r ardd
- Trwydded i gario gwastraff
- Wedi yswirio'n llawn

01570 481029
Lakefield, Llanybydder, SA40 9RL



Tyngrug-Ganol,
Cwmsychpant,
Llanybydder.

Annwyl Ffrindiau,

Helo blant, shw mae? Beth ydych chi wedi bod yn gwneud dros yr wythnosau diwethaf yma? Fuoach chi yn chwarae tu allan gyda'ch ffrindiau? Wel, rydw i wedi gwneud ffrindiau newydd sbon yn ystod yr wythnosau diwethaf. Mae'n nhw tipyn yn fwy na fi, ac yn breffwrdd yn ddi-ddiwedd. Fedrwch chi ddyfalu pwy yw'r ffrindiau hyn? Wel, Fioled y fuwch wrth gwrs sydd bellach allan yn pori yn y caeau. Mae wrth ei bodd yn bwyta'r porfa ffres a chael llond ei hysgyfaint o awyr iach.

Wel, ar waethaf prysurdeb y gwyliau, aeth nifer ohonoch ati i liwio llun yr anifeiliaid yn y sgubor. Da iawn chi gyd. Roedd ganddoch chi gyd luniau lliwgar iawn yn enwedig rhai Lisa Mair Thomas o Lanwnnen, Elliw Grug o Llanbydder a Cerian Jenkins o Beulah. Ond y llun mwyaf lliwgar y mis yma oedd un Erin Mair Evans, Park Lane, Llanllwni, Pencader. Llongyfarchiadau mawr i ti Erin Mair!

Wel mae'r tywydd yn gwella ac rydw i wedi bod allan yn tacluso'r ardd yn barod ar gyfer plannu. Rwyf wedi bod yn plannu moron, tato, pys, bresych, letys a llond lle o lysiau yn barod i fwyta. Felly beth am fynd ati i liwio llun o fy offer garddio? Cofiwch ddychwelyd y llun ataf erbyn 28 Mai.


Ta ta tan toc.



**Enillydd
y mis!**

**Erin
Mair
Evans**

Os ydych yn ymateb i hysbyseb yn CLONC,
dywedwch wrth y cwmni ymhle y gwelsoch yr hysbyseb.



Enw:

Oed:

Cyfeiriad:

Cegin Gwenog, Abernant, Llanwenog

Gwasanaeth arlwygo cyflawn
ar gyfer pob achlysur:

- Bwyd Priodas
- Bwffe
- Te Angladd
- Digwyddiadau Maes

Hefyd yn Ystafell Weini gysurus
Clwb Rygbi Llambod yn gwneud:

- Cinio Dydd Sul 12.00 – 2.00
- Partion pen-blwydd ayb
- Ciniawau - Cyfarfodydd
- Bwyd Bedydd - Te Angladdau

*Bwydlenni unigol i ateb eich
gofynion chi – boed yn fawr neu'n fach*



Peiriant
Rhostio
Mochyn
ar gael

Os am ragor o fanylion, cysylltwch â:
Tony a Mair Hatcher 01570 481230 / 07967 559683.

Cefn Hafod

Gorsgoch

Cyri bob nos Wener,
£6 y pen

Prydiau bwyd ar gael drwy'r
wythnos

Nos Lun – Nos Sadwrn

Bwyd Cartref a Chwrrw da.
Croeso cynnes i bawb!
01570 434 238

Cegin Coedlannau

*'Bwyd cartref ar gyfer
pob achlysur'*

* Cacenau pen-blwydd gyda llun
(ffotograff)

* Bwffe mawr neu fach

* Darteithion i de

* Pwŷinau

* Arlwygo ar gyfer pob achlysur



Sirian Davies, Coedlannau

Fach, Cwrtnewydd,

01570 434 243

07815 962 045

Efallai bod eich banc ddim yn cynnig cyngor – ond dwi yn!

Ydy eich banc wedi atal cynnig cyngor ariannol i chi?

Os ydych wedi colli'r gwasanaeth hwn ac angen arweiniad proffesiynol, gallaf eich cynorthwyo!

Gyda thros 27 o flynyddoedd o brofiad, gallaf gynnig cyngor ar:

Cynilo a Buddsoddi :: Yswiriant a Diogelu :: Cynllunio ar gyfer ymddeol

Taliadau treth :: Rheoli Ystad :: Morgeisi ac Yswiriant Cartref


Cysylltwch â mi am gyngor ariannol uniongyrchol:

Richard Owen Jarman Dip CII, Cert CII(MP)

Wealth Management Partner, True Potential Wealth Management LLP

M: 07816 923618 E: richardjarman@tpllp.com

www.richardjarman.tpllp.com



**CELFY CEGIN A 'STAFELL
WELY WEDI'U FFITIO,
ATEGOLION CEGIN,
CYFARPAR TRYDAN,
TEILS WAL A LLAWR**

**SGWÂR Y FARCHNAD,
LLANYBYDDER**

01570 480257

www.lifestylekitchensandbedrooms.co.uk

Swydd Wag

Clerc y Dref a

Swyddog Cyllid Cyfrifol

Cyngor Tref Llanbedr Pont Steffan

Croesawir ceisiadau am swydd Clerc y Dref

a Swyddog Cyllid Cyfrifol. Dyletswyddau yn

cynnwys gwaith gweinyddol yn ymwneud â

chylid, paratoi cyllidebau, a chynnal cyngor a chymorth i'r Cyngor.

Swydd Rhan Amser (64 awr y mis).

Cyflog cychwynnol £9,266.40 (SLCC Pwynt 26).

Gallu i weithio yn y Gymraeg a'r Saesneg yn hanfodol

Am wybodaeth bellach gan gynnwys swydd

ddisgrifiad llawn cysylltwch â: Cyngor Tref

Llanbedr Pont Steffan, 38 Penbryn, Llanbedr Pont

Steffan, SA48 7EU neu e-bostiwch

clerc@lampeter-tc.gov.uk

Y dyddiad cau am geisiadau yw

dydd Gwener, 25 Mai.

Eisteddfod Capel-y-Groes



Enillwyr cystadlaethau cyfyngedig 8 oed tan oed gadael ysgol gynradd.



Cantorion 6 i 8 oed.



Enillwyr cystadlaethau cyfyngedig o dan 8 oed.



Yn ennill cystadlaethau y Parti Canu - Ysgol Dyffryn Cledlyn.



Unawd ac Adrodd 8 – 10 oed
– Beca Elan Ebenezer.



Sioned Howells yn ennill y gadair.



Deuawd dan 16 oed agored
– Hanna ac Elan.



Unigolyn mwyaf addawol yn y
cystadlaethau cyfyngedig – Elan
Jenkins.

Cynhaliwyd Eisteddfod Gadeiriol Capel y Groes ar ddydd Mercher, 4 Ebrill. Roedd hi'n ddiwrnod digon gwlyb allan ond roedd yna gynhesrwydd tu mewn. Beirniaid y dydd oedd: Cerdd – Davinia Davies, Bancffosfelen; Llên a Llefaru – Terwyn Tomos, Llandudoch; Celf – Molly a Robert Blayney, Pontsian. Roedd y beirniaid wedi eu plesio yn fawr gyda safon y cystadlu drwy gydol y dydd. Y cyfeilydd eleni eto oedd Lynne James, o Gastell Newydd Emlyn.

Cadeirydd yr Eisteddfod, sef Manon Richards, gyflwynodd Llywydd yr Eisteddfod sef Mrs Doreen Sisto o Abergorlech. Cafwyd ganddi araiith bwrpasol yn sôn am aelodau o'i theulu sy'n gorwedd yn y fynwent a derbyniwyd rhodd hael ganddi tuag at yr achos. Cyflwynodd Manon fasedd hardd o flodau yn rhodd i Doreen ar ran pwyllgor yr Eisteddfod.

Dyma enillwyr y dydd.

Cyfyngedig: Canu dan 8 oed – Noa Potter-Jones, Drefach. Adrodd dan 8 oed – Mari Gwenllian Evans, Blaencwrt. Canu ac Adrodd 8 oed tan gadael ysgol gynradd – Elan Jenkins, Alltyblaca. Plentyn mwyaf addawol yn y cystadlaethau cyfyngedig – Elan Jenkins, Alltyblaca.

Llenyddiaeth: Cadair i rai o dan 21 oed, yn rhoddedig gan Meinir, Iwan, Ann, Elfed a'u teuluoedd i gofio am eu rhieni, Alan a Ceinwen Jenkins, Ceulan, Maestir, – Sioned Howells, Pantglas, New Inn. Stori neu gerdd dan 16 oed – Hedd Dafydd, Ysgol Henry Richard. Barddoniaeth neu Stori – Cyfnod Sylfaen – Twm James, Tregaron. Barddoniaeth neu Stori CA2 – 'Sosban'. Cân ysgafn neu ddychan – Mary Morgan, Llanrhystud a Megan Richards, Aberaeron. Cerdd ar fydr ac odl – Carys Briddon, Tre'r Ddôl. Ysgrif neu Draethawd – Carys Briddon, Tre'r Ddôl. Brawddeg yn defnyddio enw unrhyw wlad – Megan Richards, Aberaeron. Limrig – Iwan Thomas, Rhandir, Ciliau Aeron. Brysneges neu neges Trydar – Megan Richards, Aberaeron. Pennill i ofyn ffafr – Iwan Thomas, Rhandir, Ciliau Aeron.

Mae Eisteddfod Capel y Groes yn symud ymlaen gyda'r oes a bellach mae gyda'r Eisteddfod dudalen Facebook – Eisteddfod Capel y Groes, ac hefyd cyfrif Trydar @CapelyGroes – cofiwch ddilyn rhain! Rhoddwyd y canlyniadau drwy gydol y dydd ar y gwefannau cymdeithasol yma.

Diolch i bawb am gefnogi'r eisteddfod eleni eto ac yn arbennig i'r noddwyr am eu rhoddion ariannol tuag at y diwrnod. Diolch yn fawr iawn i bawb a wnaeth ddod i gystadlu eleni a gobeithio y gwelwn ni chi eto y flwyddyn nesaf!

Ceir y canlyniadau yn llawn ar wefan Clonc360.

Pêl-droedwyr Talentog



Llongyfarchiadau mawr i dîm pêl droed dan 11 Llambled am ennill twrnament Felinfach yn ddiweddar.

Llongyfarchiadau mawr hefyd i nifer o chwaraewyr o Llambled a gafodd eu dewis i fod yn rhan o sgwod y Gynghrair a fu'n cystadlu mewn cystadleuaeth Sirol yn Aberystwyth yn ddiweddar. Dyma'r rhai a gafodd eu dewis. Merched dan 12: Casi Gregson, Evie McKay, Jess McKay a Faye Jones. Bechgyn dan 12: Osian Elis Roberts, Sion Harri Evans, Vince Mason a Osian Kersey. Bechgyn dan 14: Owen Rowcliffe, Harry Saunders, Dafydd Jones, a Guto Ebbsworth.

CYFRI

CYNGHORWYR ARIANNOL ANNIByNNOL
INDEPENDENT FINANCIAL ADVISERS

23 Stryd y Coleg, Llanbedr Pont Steffan, SA48 7DY
T 01570 423823 E post@cyfri.co.uk W www.cyfri.co.uk

Am gyngor diduedd annibynnol ar amryw o faterion ariannol, yn cynnwys:
Buddsoddiadau, Pensiynau, Treth Etifeddiaeth, Yswiriant Bywyd, Yswiriant salwch difrifol ac Yswiriant diogelwch incwm.

Gary Davies BSc(Hons), Dip IP PFA
Beca Russell BSc(Hons), MSc(Hons), Dip PFS
Cysylltwch â ni am wasanaeth proffesiynol y gallwch ymddiried ynddo.

Mae'n bosib i werth eich buddsoddiadau a'ch pensiwn gostwng yn ogystal â chynyddu. Nid ydych yn sicr o gael eich buddsoddiad gwreiddiol yn ôl. Os nad ydych yn cadw lán gyda'ch ad-daliadau mae'n bosib i chi dderbyn gorchymyn aifeddiannu am eich cartref.

Gorsaf
Brawf
MOT

GAREJ BRONDEIFI



Heol Llanfair Road, Llambled, SA48 8JX

- * Gwasanaeth trwsio ac atgyweirio
- * Teiars am brisiau cystadleuol
- * Ceir newydd ac ail law ar werth
- * Batris * Brecs * Egsost
- * Gorsaf Brawf MOT Ceir a Beiciau Modur



Peiriant Golchi Ceir Poeth

01570 422305

07974 422 305



ANGEN CLUDIANT I GAEL MYNEDIAD I WAITH, HYFFORDDIANT, ADDYSG, GOFAL IECHYD, SIOPA NEU GYFARFOD Â FFRINDIAU A THEULU?

Cydweithrediad Rhwydwaith Integredig Lleol (LINC)

Menter trafniadaeth wledig newydd yn gweithredu yng ngorllewin Cymru, yn cysylltu cymunedau gwledig â'r prif wasanaethau bws a'r rhwydwaith trenau, gan wneud cyfraniad gwerthfawr i fywyd gwledig, iechyd a'r economi leol.

Lle mae'r siwrnai'n cychwyn a gorffen.

Bwcabus
TrawsCymru
Cyswllt TrawsCymru Connect



CREU CYSYLLTIADAU

